

Atodiad 1 – Adroddiad Ymgynghoriad

Cyflwyniad

Ymgwymerwyd ag Asesiad O Effaith Ar Gydraddoldeb i nodi anghydraddoldebau potensial sy'n codi o ddatblygiad a chyflwyniad o asesiad poblogaeth. Mae'r wybodaeth a gafwyd o'r broses hon wedi cael ei defnyddio i ddatblygu asesiad poblogaeth Gogledd Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu manylion o'r ymgynghoriad ymgwymerwyd â hi fel rhan o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ac mae'n darparu tystiolaeth ar sut rydym yn cwrdd â gofynion y sector cyhoeddus ar ddyletswydd cydraddoldeb.

Mae'r ddogfen Asesiad O Effaith Ar Gydraddoldeb ar-lein ar gael [yma](#).

Cefndir

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y ddeddf) yn gofyn i bob rhanbarth gynhyrchu asesiad o ofynion gofal a chefnogi'r boblogaeth yn eu hardal nhw, gan gynnwys gofynion cefnogi gofalwyr erbyn 1 Ebrill 2017. Mae chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cynhyrchu asesiad poblogaeth ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru gyda chefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd yr adroddiad yn cael ei ddefnyddio i hysbysu'r cynllun ardal sydd wedi cael ei baratoi ar y cyd rhwng y bwrdd iechyd a chynghorau lleol wedi ei oruchwylio gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Rhaid i'r cynllun ardal gael ei gyhoeddi erbyn 1 Ebrill 2018.

Mae cynhyrchu Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar yr asesiad o'r boblogaeth yn un o ofynion y ddeddf. Mae hwn yn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb strategol cychwynnol gynhyrchir ar gychwyn y broses. Bydd angen i'r cynllun ardal a'r camau gweithredu a ddatblygwyd mewn ymateb i'r asesiad o boblogaeth gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gael Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb i asesu eu heffaith potensial fel y gwelir yng nghanlyniadau'r cynlluniau hynny.

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dwyn ynghyd nifer o wahanol ddeddfwriaethau i greu un fframwaith cyfreithiol er mwyn ymdrin â gwahaniaethu ac anfantais yn fwy effeithiol. Rydym yn defnyddio'r fframwaith yma i ystyried sut rydym yn cynhyrchu'r asesiad poblogaeth, y potensial am unrhyw wahaniaethu a sut gallwn ni atal neu leihau unrhyw wahaniaethu posib.

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Gyhoeddus

Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswydd sector cyhoeddus newydd sy'n gofyn i bob corff cyhoeddus, gan gynnwys y cynghorau, drechu rhagfarn, symud cydraddoldeb cyfleoedd yn ei flaen a hyrwyddo perthnasau da. Yn benodol, rhaid i ni:

Rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:	Mae rhoi sylw dyledus i symud cydraddoldeb yn ei flaen yn golygu:
Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf;	Diddymu neu leihau gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth a ddioddefir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.
Gwella cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydyn nhw.	Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig pan fônt yn wahanol i anghenion pobl eraill
Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig.	Cymryd camau i adeiladu cymunedau lle mae pobl yn teimlo'n hyderus eu bod yn perthyn ac yn gyfforddus cymysgu a rhyngweithio gydag eraill.

Mae gan gynghorau yng Nghymru hefyd ddyletswyddau cyfreithiol penodol sydd wedi eu gosod yn rheoliadau 2011 Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) gan gynnwys asesu effaith polisïau a chynlluniau perthnasol - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Er mwyn sefydlu sail gadarn ar gyfer yr asesiad poblogaeth rydym wedi:

- adolygu'r mesuriad perfformiad a'r data dangosydd poblogaeth sydd wedi ei argymhell yn y catalog data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â data lleol, rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol arall
- ymgynghori mor eang ag sy'n bosib ar draws rhanbarth Gogledd Cymru gan gynnwys gyda'r cyhoedd, cydweithwyr a phobl gyda nodweddion a ddiogelir;
- adolygu llenyddiaeth ymchwil ac ymgynghori perthnasol gan gynnwys deddfwriaeth, strategaethau, cynlluniau comisiynau, asesiad anghenion ac adroddiadau ymgynghori

Mae manylion o'r data lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, yr adolygiad llenyddiaeth a chrynodeb o ddarganfyddiadau'r ymgynghoriad wedi ei ddarparu yn yr adroddiad asesiad poblogaeth.

Mae'r adroddiad yn nodi:

- pwy rydym wedi ymgynghori â nhw;
- sut rydym wedi ymgynghori; a'r
- adborth o'r ymgynghoriad

Egwyddorion ymgynghori

Rhan allweddol o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw ymgynghori gyda phobl efallai iddynt gael eu heffeithio gan yr asesiad poblogaeth ac yn enwedig pobl gyda nodweddion a ddiogelir.

Mae cyfraith achosion wedi darparu set o egwyddorion ymgynghori sy'n disgrifio'r disgwyliadau cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus yn y datblygiad o strategaethau, cynlluniau a gwasanaethau. Adnabyddir y rhain fel Egwyddorion Gunning:

1. Mae'n rhaid i ymgynghoriad ddigwydd pan fydd y cynnig yn dal i fod yn y cyfnod ffurfiannol.
2. Dylid cyflwyno rhesymau digonol ar gyfer y cynnig i ganiatáu ystyriaeth ac ymateb deallus

3. Rhaid rhoi amser digonol ar gyfer ystyried ac ymateb.
4. Mae'n rhaid i gynnyrch yr ymgynghoriad gael ei ystyried yn gydwysbodol.

Mae gan gynghorau lleol yng Ngogledd Cymru bolisi ymgysylltu â dinasyddion rhanbarthol (Isle of Anglesey County Council *et al.*, 2016). Mae hwn yn seiliedig ar yr egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltiad cyhoeddus yng Nghymru ac egwyddorion cydgynhyrchiad oedd wedi hysbysu ein cynllun ymgynghori.

Ymgynghori ac Ymgysylltu

Amcan yr ymgynghoriad oedd nodi'r gofynion gofal a chefnogi pobl yng Ngogledd Cymru ac anghenion cefnogi gofalwyr. Roedd canllawiau Llywodraeth Cymru yn gofyn fod yr adroddiad yn cynnwys y penodau canlynol:

- Plant a phobl ifanc
- Pobl Hŷn
- Iechyd, anableddau corfforol ac amhariadau synhwyraidd
- Anableddau dysgu, awtistiaeth
- Iechyd Meddwl
- Gofalwyr
- Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Cytunodd grŵp llywio Gogledd Cymru i gynnwys y penodau canlynol hefyd: mannau diogel, cyn-filwyr a digartrefedd. Mae gwybodaeth am gamddefnyddio sylweddau wedi ei gynnwys yn Asesiad O Anghenion Camddefnyddio Sylweddau'r Bwrdd Cynllunio Ardal a'r Asesiadau Lles a gynhyrchwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Y Broses Ymgynghori

Cafodd proses sgrinio cychwynnol yr Asesiad O Effaith Ar Gydraddoldeb ei gwneud gan Grŵp Llywio asesiad poblogaeth oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r chwe awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Byrddau Iechyd Y Cyhoedd yn eu cyfarfodydd ar 4 Mawrth 2016 a 13 Mawrth 2016. Roedd y grŵp llywio yn cytuno fod angen i ymgynghoriad eang ddigwydd i hysbysu'r asesiad o boblogaeth oedd yn cynnwys pobl gyda nodweddion a ddiogelir. Fe wnaethant sefydlu grŵp ymgysylltu i arwain ar yr ymgynghoriad a grŵp asesiad o effaith ar gydraddoldeb i asesu'r broses, y potensial am unrhyw wahaniaethu a sut allwn ni atal neu leihau unrhyw wahaniaethu posib. Roedd y grŵp ymgysylltu yn cynnwys cynrychiolwyr o bob awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Y nod oedd:

- a) Nodi'r gwaith ymgysylltu sydd wedi digwydd dros y 12 mis diwethaf neu fydd yn cael ei gwblhau erbyn mis Awst 2016.
- b) Nodi'r budd-ddeiliaid
- c) Nodi fforymau/grwpiau defnyddwyr gwasanaeth presennol y gallwn wneud cysylltiad gyda nhw

- d) Gofyn i'r gweithwyr proffesiynol ar ba grwpiau y dylem fod yn canolbwyntio ein gwaith ymgysylltu
- e) Adnabod bylchau yn yr ymgysylltiad sydd wedi digwydd hyd hyn
- f) Cynllunio gwaith ymgysylltu i gwrdd â'r bylchau hyn.

Mae panel dinesydd wedi ei sefydlu fel rhan o'r ddeddf, sydd wedi cael ei ddefnyddio fel rhan o'n strategaeth ymgysylltu.

Roedd yr amserlen ar gyfer datblygiad yr asesiad poblogaeth fel a ganlyn.

Mis	Camau Gweithredu
Mawrth 2016	Cytunwyd ar y Cynllun Prosiect a'r Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd Coladu strategaethau comisiynu presennol, cynlluniau a dogfennau asesiad o anghenion.
Ebrill a Mai 2016	Rhestru budd-ddeiliaid prosiect a datblygu cynllun ymgynghori Cwestiynau Ymgynghori gytunwyd arnynt Lawrlwytho mesuryddion perfformiad a dangosyddion poblogaeth a restrwyd yn y catalog data Crynhai negeseuon allweddol o strategaethau a dadansoddiad lleol
Mehefin hyd Awst 2016	Ymgysylltu a chasglu tystiolaeth gan gynnwys: - Arolwg o sefydliadau partner - Grwpiau trafod ac arolygon gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau - Cyfweiliadau panel dinasyddion ac arolwg ar-lein (aelodau o'r cyhoedd) - Gweithdai ymgynghori staff ac aelodau etholedig
Medi hyd Tachwedd 2016	Adolygu gweithgareddau ymgynghori yn erbyn map budd-ddeiliad a chomisiynu unrhyw ymgynghoriad ac ymgysylltiad ychwanegol sydd ei angen. Dadansoddi data, ysgrifennu penodau asesiad poblogaeth drafft a dosbarthu adborth.
Rhagfyr 2016 hyd Mawrth 2017	Proses Gymeradwyo. Rhaid i'r adroddiad fynd i gyngor llawn bob un o'r chwe awdurdod lleol ac i'r bwrdd iechyd.

Cynllun hyrwyddo

Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad a'r ymgysylltiad drwy rwydweithiau rhanbarthol, cynghorau'r sector gwirfoddol, awdurdodau lleol ac iechyd. Roedd yn cynnwys hysbysebu ar-lein, cyfryngau cymdeithasol, datganiadau i'r wasg i bapurau newydd lleol a radio, bwletinau staff, grwpiau defnyddwyr gwasanaeth, holiaduron mewn llyfrgelloedd a meddygfeydd teulu. Am ragor o wybodaeth am yr hyrwyddiad sy'n cael ei wneud gan bob asiantaeth, [gweler atodiad 1f, Crynodeb ymgysylltiad lleol.](#)

Dulliau Ymgynghori

Roedd yr ymgynghoriad a'r ymgysylltiad ar gyfer asesiad poblogaeth Gogledd Cymru yn defnyddio'r dulliau isod:

- Holiadur i sefydliadau oedd yn gofyn eu barn ac am unrhyw dystiolaeth oedd ganddynt megis mesuryddion perfformiad neu adroddiadau ymgynghori.

- Grwpiau trafodaeth gyda defnyddwyr gwasanaeth. Fe anfonodd rhai siroedd holiaduron allan hefyd.
- Holiadur i'r cyhoedd ar gael ar wefan y Panel Dinasyddion ynghyd â chyfweliadau gydag aelodau o'r Panel Dinasyddion. Roedd Ynys Môn wedi cyhoeddi holiaduron ychwanegol i'r cyhoedd hefyd.
- Gweithdai ar gyfer staff a chynghorwyr.
- Adolygu llenyddiaeth ymchwil ac ymgynghori perthnasol gan gynnwys deddfwriaeth, strategaethau, cynlluniau comisiynu, asesiad anghenion ac adroddiadau ymgynghori.
- Canfyddiadau o'r ymgynghoriad a'r ymgysylltiad wnaed ar gyfer Asesiadau Llesiant sy'n cael eu datblygu ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd yr ymgysylltiad a gomisiynwyd gyda grwpiau mwy anodd eu cyrraedd drwy Rwydwaith Hil a Chydraddoldeb Gogledd Cymru a thrwy gyngor Wrecsam yn cynnwys: Grŵp anabledd corfforol, Grŵp Gofalwyr, Cymdeithas Alzheimer's, BAWSO, cynrychiolwyr o'r gymuned Portiwgaleg, cynrychiolwyr o'r Gymdeithas Bwylaidd, Grŵp Cefnogi Nam ar y Golwg, Grŵp Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol a Chymdeithas y Byddar. Trefnodd Iechyd Cyhoeddus Cymru grŵp ffocws gyda chyn-filwyr.

Cawsom ymateb da i'r ymgynghoriad a'r ymgysylltiad. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adroddiadau penodol sydd ynghlwm fel atodiadau ar gyfer pob dull ymgynghori. Roeddem wedi gallu cynnwys pobl gyda nodweddion a ddiogelir a phobl o bob sir o Ogledd Cymru o ardaloedd gwledig ac ardaloedd mwy trefol.

Digwyddodd ymgynghoriad pellach yn ystod y broses gymeradwyo hefyd. Mae'r adroddiad wedi cael ei adolygu gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yr uwch gyfarfodydd gweithredol perthnasol a'r pwyllgorau archwilio ym mhob awdurdod lleol y cyngor llawn a'r bwrdd iechyd.

Dull

Fe wnaethom ddefnyddio ystod o ddulliau ar gyfer yr ymgynghoriad a'r ymgysylltiad - ar-lein, wyneb i wyneb (cyfweliadau manwl, gweithdai a grwpiau ffocws) a thrwy sefydliadau partner. Fe gynlluniom holiadur templed a chanllaw grŵp trafodaeth ond rhoddwyd hyblygrwydd i'r hwyluswyr ei addasu ar gyfer grwpiau penodol, er enghraifft fe wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy addasu'r deunyddiau ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu ac fe wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy eu haddasu i'w defnyddio gyda phlant a phobl ifanc.

Mae'r map budd-ddeiliaid a manylion yr ymgysylltiad a gynhaliwyd ar gael yn [atodiad 1f](#). Yn dilyn gweithgaredd ymgysylltu dros yr haf, cafodd y grŵp ymgysylltu gyfarfod unwaith eto ar 21 Medi 2016 i asesu os oedd angen unrhyw ymgysylltiad ychwanegol. Nodwyd bylchau gyda grwpiau Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol a Phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a grwpiau ffydd i sicrhau bod y grwpiau yma wedi eu cynnwys.

Adolygiad ymgynghori ac ymgysylltu

Roedd y map budd-ddeiliaid o gymorth i nodi bylchau yn ein gwybodaeth y byddwn yn ei archwilio yn y cynllun ac adolygiad ardal. Oherwydd amserlenni'r prosiect nid ydym wedi gallu cyrraedd pob grŵp ond mae cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng siroedd wedi ein helpu i nodi beth sydd angen ei wneud nesaf. Mae hefyd wedi cymryd amser i sefydlu rhwydweithiau gyda grwpiau gwahanol, y byddwn yn gallu manteisio ohonynt yng nghyfnod nesaf y prosiect.

Roedd gweithgareddau ymgysylltu ychwanegol yr hoffai'r grŵp eu gwneud nad oedd yn bosib oherwydd amseru'r prosiect. Er enghraifft, penderfynwyd i beidio targedu defnyddwyr gwasanaeth gyda holiaduron ar-lein neu bapur oherwydd gallai effeithio'r cyfraddau ymateb i holiaduron deilliannau newydd Llywodraeth Cymru oedd yn cychwyn ym mis Medi 2016. Bydd y canlyniadau ar gael ar gyfer adolygiad yr asesiad poblogaeth. Fe wnaethom hefyd gyfyngu ar yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Panel Dinasyddion ac arolwg Ynys Môn o aelodau o'r cyhoedd oherwydd yr ymgynghoriadau oedd yn cael eu cymryd ar gyfer yr Asesiad Llesiant. Hoffai'r grŵp wneud mwy o waith i gyfuno anghenion heb eu cyflawni o sgysiau Beth sy'n Bwysig ac adborth gan wasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. Nid oedd y rhain wedi eu sefydlu ddigon i hysbysu'r asesiad poblogaeth y tro hwn, ond gall y grŵp edrych ar brosesau datblygu a sgiliau ar gyfer y tro nesaf.

Bydd gwybodaeth a gesglir ar gyfer yr asesiad hwn yn cael ei rhannu gyda'r bwrdd iechyd, awdurdodau lleol a phobl sy'n gweithio ar yr Asesiadau Lles ar gyfer Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (gan gymryd i ystyriaeth unrhyw faterion diogelu data). Rydym wedi defnyddio gwybodaeth a gesglir ar gyfer Asesiadau Lles lle'n bosib.

Rydym wedi defnyddio proffiliau sy'n bodoli eisoes i hysbysu'r asesiad poblogaeth. Mae rhestr lawn wedi ei chynnwys yn y map budd-ddeiliaid.

Mae gan lawer o bobl fwy nag un nodwedd warchodedig sydd angen ei ystyried wrth edrych ar y potensial am wahaniaethu. Rydym wedi cynnwys crynodeb o'r materion sy'n wynebu pobl gyda nodweddion a ddiogelir ac unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen ym mhob pennod o'r asesiad poblogaeth. Mae'r tabl isod yn adolygu pa mor effeithiol oedd yr ymgynghoriad a'r ymgysylltiad wrth gyrraedd pobl gyda nodweddion a ddiogelir. Mae mwy o fanylder yn yr atodiadau.

Adolygiad o weithgareddau ymgynghori yn ôl nodweddion gwarchodedig

Nodweddion Gwarchodedig	Crynodeb o weithgaredd ymgynghori
Oedran	Cawsom gynrychiolaeth dda gan bobl hŷn ar y panel dinasyddion ac yn ymatebion i holiadur y sefydliad. Fe wnaethom ymgysylltiad wedi ei dargedu gyda grwpiau agored i niwed o blant a phobl ifanc ac wedi cael adborth da gan ofalwyr ifanc. Roeddem wedi gallu tynnu ar yr ymgynghoriad a ymgymerwyd o'r asesiadau gofal plant a chwarae yr oedd pob awdurdod lleol wedi'u cwblhau

Anableddau	Yn gyffredinol, cawsom ymatebion da i'r ymgynghoriad gyda chynrychiolaeth dda ar draws y grŵp. Mae ffocws ar anghenion pobl anabl yn y penodau ar anableddau dysgu, anableddau corfforol a nam ar y synhwyrâu, cyflyrau iechyd a chronig ac iechyd meddwl
Rhyw	Cawsom ymatebion da gan sefydliadau Cymorth i Fenywod ac ymateb manwl am anghenion iechyd menywod gan Fair Treatment for the Women of Wales. Cawsom adborth gan FNF Both Parents Matter Cymru drwy rwydwaith genedlaethol ar 26 Hydref sydd wedi cael ei ychwanegu at y llyfrgell dogfennau ac yn cynnwys gwybodaeth am bwysigrwydd ymgysylltu â thadau a gofawyr gwrywaidd eraill yng ngwasanaethau plant a phobl ifanc a'r angen i gefnogi dioddefwyr gwrywaidd trais domestig. Roedd y gweithdai ymgysylltu yn cynnwys dynion a menywod er bod mwy o fenywod wedi ymgysylltu yn gyffredinol.
Ailbennu Rhyw	Fe wnaeth Sir y Fflint ddarparu gwybodaeth o'u grŵp Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb am rwystrau i gael mynediad i ofal iechyd i bobl trawsrywiol. Encompass (grŵp cefnogaeth a rhannu gwybodaeth ar gyfer y gymuned Lesbïaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol ar draws Gogledd Cymru).
Priodas a phartneriaeth sifil	Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys pobl gyda statws priodasol gwahanol.
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Rydym yn gallu defnyddio'r ymgynghoriad ymgwymerwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am wasanaethau mamolaeth ac iechyd meddwl da i famau ac o amgylch rhoi genedigaeth.
Hil	Tystiolaeth a gasglwyd o adolygiad llenyddiaeth. Wedi derbyn adborth gan BAWSO. Roedd ymgynghoriad asesiad llesiant yn cynnwys Rhwydwaith Hil a Chydraddoldeb Gogledd Cymru, BAWSO, cynrychiolwyr o'r gymuned Portiwgaleg a chynrychiolwyr o'r gymuned Bwylaidd. Roedd cyfweiliadau panel dinasyddion yn cynnwys pobl oedd wedi symud i'r DU o wledydd Ewropeaidd eraill.
Crefydd a Chred	Siaradodd aelodau o'r Panel Dinasyddion am bwysigrwydd eu ffydd a gallu ei ymarfer os oedd ganddynt anghenion gofal a chefnogi. Fe wnaethom ddefnyddio ymgynghoriad gan brosiect henuriaid ethnig lleiafrifol yng Ngogledd Cymru.
Tueddfryd Rhywiol	Fe gysylltom gyda grwpiau gan gynnwys Encompass a Viva. Fe wnaethom edrych ar adborth gan bobl LGBTQ o brosiect ymchwil gan Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Conwy.
Iaith Gymraeg	Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys siaradwyr Cymraeg.

Canfyddiadau'r ymgynghoriad, data a ffynonellau gwybodaeth

Mae canfyddiadau'r adborth ymgynghori wedi eu cynnwys yn adran 'beth mae pobl yn ei ddweud' o bob pennod ac yn atodiadau pob dull ymgynghori. Gweler y map budd-ddeiliaid am restr lawn o ffynonellau data a gwybodaeth a ddefnyddir i hysbysu'r asesiad poblogaeth.

- Atodiad 1a: Ymgynghoriad gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau
- Atodiad 1b: Adborth gan y cyhoedd gan gynnwys panel dinasyddion
- Atodiad 1c: Ymgysylltu â staff a darparwyr

- Atodiad 1d: Adroddiad arolwg sefydliad
- Atodiad 1e: Map budd-ddeiliaid a rhestr lawn o gyfeiriadau
- Atodiad 1f: Crynodeb o ymgysylltiad lleol

Atodiad 1a: Ymgynghoriad â'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau

Cyflwyniad

Defnyddiodd yr ymgynghoriad ac ymgysylltiad ar gyfer asesiad poblogaeth Gogledd Cymru y dulliau isod:

- Holiadur ar gyfer sefydliadau sy'n gofyn eu barn ac unrhyw dystiolaeth fel mesuryddion perfformiad neu adroddiadau ymgynghori.
- Grwpiau trafod gyda defnyddwyr gwasanaeth. Anfonodd rhai siroedd holiaduron allan hefyd.
- Mae holiadur ar gyfer y cyhoedd ar gael ar wefan y Panel Dinasyddion ynghyd â chyfweiliadau gydag aelodau'r Panel Dinasyddion. Rhoddodd Ynys Môn hefyd holiaduron ychwanegol i'r cyhoedd.
- Gweithdai gyda staff a chynghorwyr.
- Adolygiad o ymchwil ac ymgynghoriad perthnasol gan gynnwys deddfwriaeth, strategaethau, cynlluniau comisiynu, asesiadau anghenion ac adroddiadau ymgynghori.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r grwpiau trafodaeth a holiaduron i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae adroddiadau eraill ar gael yn crynhoi'r canfyddiadau o ddulliau eraill. Mae canfyddiadau allweddol hefyd wedi'u cynnwys yn adran 'beth mae pobl yn ei ddweud wrthym?' ym mhob pennod. Mae rhestr lawn o'r holl wybodaeth a gasglwyd i hysbysu'r asesiad poblogaeth wedi'i chynnwys fel atodiad i'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb.

Dull

Datblygwyd set o gwestiynau i'w defnyddio gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau ar hyn o bryd. Trefnodd rhai siroedd weithdai, anfonodd rhai holiaduron a chyflwynodd eraill adborth tebyg yr oeddent wedi'i gasglu yn ddiweddar. Dewisom beidio dosbarthu holiaduron yn eang oherwydd pryderon ynglŷn â dyblygu ac efallai leihau'r cyfraddau ymateb i'r arolygon ar gyfer y mesuryddion perfformiad gwasanaethau cymdeithasol newydd sy'n cael eu cynnal o fis Medi 2016. Yn yr adroddiad terfynol, cynhwyswyd canfyddiadau o ymgynghoriadau diweddar a gynhaliwyd cyn i'r prosiect ddechrau yn ogystal â'r digwyddiadau a restrir yma.

Cynhaliwyd 20 o ddigwyddiadau ledled Gogledd Cymru gyda gwahanol grwpiau a dosbarthwyd pum holiadur. Cyrhaeddodd y rhain gyfanswm o 313 o bobl fel y dangosir yn Nhabl 1 a Thabl 2 isod.

Tabl 1: Digwyddiadau ymgynghori

Enw'r grŵp neu ddigwyddiad	Trefnwyd gan	Dyddiad	Nifer yn bresennol
Grŵp cyfeirio Gofalwyr	BIPBC	29 Gorffennaf 2016	19
Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru (dau grŵp ffocws ar gyfer pobl ag anableddau dysgu)	Cyngor Sir Ynys Môn		15
Gadawyr Gofal/Pobl Ifanc Ddigartref sy'n byw yn Isallt	CBS Conwy	26 Gorffennaf 2016	4
Creu gwên – rhieni plant ar y sbectrwm awtistig	CBS Conwy	25 Mehefin 2016	7
Fforwm Cyswllt – Cyswllt Conwy	CBS Conwy	27 Gorffennaf 2016	4
Cyngor Ysgol, Ysgol Gogarth	CBS Conwy	1 Gorffennaf 2016	8
ARC Communities	CBS Conwy	24 Gorffennaf 2016	4
Grŵp Cydraddoldeb Dinasyddion	Cyngor Sir y Fflint	8 Medi 2016	6
Grŵp Ffocws Anabledd	Cyngor Sir y Fflint	23 Awst 2016	5
Grŵp Ymgysylltu Dinasyddion (Gwasanaeth Iechyd Meddwl, Cyswllt Cymunedau)	Cyngor Sir y Fflint	5 Medi 2016 (Hope) 6 Medi 2016 (Yr Wyddgrug)	16
Grŵp Ymgysylltu Dinasyddion (Gwasanaeth Iechyd Meddwl, Growing Places)	Cyngor Sir y Fflint	8 Medi 2016	10
Grŵp Cyfranogi pobl ifanc dan ofal a gadawyr gofal	Cyngor Sir y Fflint	26 Gorffennaf 2016	5
Cyfarfodydd Anableddau Dysgu	Cyngor Gwynedd	14 Mawrth 2016	25
Ymgysylltu gydag amryw o bobl hŷn sy'n cael gofal yn y cartref, mynd i wasanaethau dydd neu'n byw mewn cartref preswyl.	Cyngor Gwynedd	Medi/Hydref 2016	9
Gofalwyr – sesiynau ymgysylltu ledled y sir	Cyngor Gwynedd	Medi 2016	15
Cyngor Gofal Pobl Ifanc	CBS Wrecsam	5 Gorffennaf 2016	6
Senedd Yr Ifanc	CBS Wrecsam	25 Gorffennaf 2016	5
Ymgynghoriad Cyn-filwyr	Iechyd Cyhoeddus Cymru	29 Medi 2016	4
Encompass (grŵp cefnogi a rhannu gwybodaeth ar gyfer y gymuned LGBT)	Grŵp ymgysylltu	5 Hydref 2016	9

Tabl 2: Holiaduron a ddosbarthwyd i ddefnyddwyr gwasanaeth

Holiaduron.	Trefnwyd gan	Dyddiad	Ymatebion
Holiadur gofal yn y cartref	Cyngor Ynys Môn	2016	18
Holiadur defnyddwyr gwasanaeth	Cyngor Ynys Môn	2016	84
Holiadur plant a phobl ifanc	Cyngor Ynys Môn	2016	10

Holiadur anableddau dysgu	Cyngor Gwynedd	2016	25
Holiadur gofalwyr	Cyngor Gwynedd	2016	

Canfyddiadau fesul thema

Plant a phobl ifanc

Pobl ifanc dan ofal a gadawyr gofal

Canfu'r gweithdai gyda phobl ifanc dan ofal a gadawyr gofal:

- Mai'r pethau sy'n bwysig iddynt yw ffrindiau, bod yn egnïol ac iach, teulu, hobiau a diddordebau, teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, ffôn/wifi
- Mai'r pethau y maent yn eu cael yn anodd yw: cael ysgogiad, canfod gwaith, aros yn iach, cymdeithasu, teimlo'n hyderus, ffitio i mewn, bod yn annibynnol, siarad am y pethau y maent eu heisiau mewn bywyd, heriau ynghlwm ag anabledd.
- Eu bod yn teimlo y byddai pethau'n well pe bai ganddynt: fwy o bres; swydd; gwell iechyd meddwl a/neu gorfforol; gwell cwsgr; gallu siarad am eu teimladau; torri patrymau ymddwyn nad ydynt yn ddefnyddiol; cefnogaeth i gymdeithasu; addysg dda; bod yn ddiogel a theimlo bod rhywun yn eich caru.
- Eu bod yn cael cefnogaeth ar hyn o bryd gan: weithwyr proffesiynol (gweithiwr cymdeithasol, ymgynghorydd personol, gofawyr maeth, gweithwyr ieuenctid, cwnselwyr, gweithwyr cefnogi ysgol), teulu, ffrindiau a grwpiau. Mae ganddynt farn gymysg am pa mor dda y mae'n gweithio – rhai yn dda iawn, rhai ddim cystal. Mae ganddynt hefyd farn gymysg am pa mor ddefnyddiol y gall ffrindiau a theulu, y gymuned leol a gwasanaethau trydydd sector neu wasanaethau cyhoeddus fod. Dywedodd rhai y gall elusennau ddarparu cefnogaeth, helpu teuluoedd i fynd yn ôl at ei gilydd a helpu i gael swyddi. Dywedodd eraill y gall y sector cyhoeddus fod yn fwy hygyrch, defnyddiol a darparu rhagor o wybodaeth.

Gadawyr Gofal/Pobl Ifanc Ddigartref

Canfu'r gweithdy gyda gadawyr gofal a phobl ifanc ddigartref bod rhai yn hapus gyda'r cymorth y maent yn ei gael. Nododd eraill eu hanghenion fel:

- gwell cyfathrebu rhwng staff (pobl ifanc yn cael negeseuon cymysg),
- cefnogaeth gyda darllen ac ysgrifennu,
- aros allan o drwbl,
- arian a chyflogaeth,
- rheoli dicter,
- amodau byw,
- cyffuriau,
- cynnal a chadw llety yn well,
- cefnogaeth i ymdrin ag ADHD.

Doedd gan y bobl ifanc hyn ddim perthynas dda â'u teuluoedd a phan ofynnwyd sut y gall ffrindiau, teulu a'r gymuned leol eu cefnogi, crybwyllwyd y sefydliadau a ganlyn: MIND, Barnardos, Cais, Nacro, Nant y Glyn, eglwys, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, HOST ac Asiantaeth Hyfforddi Gogledd Cymru.

Plant Anabl

Nododd adborth o sesiynau ymgynghori gyda rhieni y themâu cyffredin a ganlyn.

- Credwyd bod yr amser a gymerwyd i gynnal asesiadau ac oedi wrth gael cefnogaeth yn rhy hir. Mae angen “bod yn gyflymach pan fydd cri am help”. Nodwyd hefyd bod cefnogaeth wrth aros am asesiadau neu gadarnhad o ddiagnosis yn bwysig.
- Pryder ynglŷn â'r diffyg cymorth sydd ar gael i helpu i ofalu am eu plentyn/plant, yn enwedig i'r rhai sy'n ofalwyr llawn amser a rhieni sengl, os ydynt yn sâl, ac yn ystod gwyliau ysgol.
- Teimlo eu bod angen mwy o gefnogaeth i gynnal eu lles emosiynol eu hunain – gan gynnwys cymorth ychwanegol, seibiant byr, dysgu am strategaethau ymdopi, gwarchodwyr plant a chefnogaeth ar gyfer lles emosiynol. Roedd hyn yn bryder wrth jyglo gwaith a gofalu am blentyn anabl ac awgrymwyd bod gweithwyr proffesiynol sy'n gwrando yn bwysig. Roedd effaith corfforol ac emosiynol rheoli problemau ymddygiad ar y rhieni hefyd yn sylweddol. Gan gynnwys; tymer, anawsterau cyfathrebu a phryderon diogelwch.
- Effaith ynysu cymdeithasol a chefnogaeth i blant a rhieni adael y cartref. Byddai'n ddefnyddiol i fedru defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer teithiau allan fel teulu, clybiau ar ôl ysgol neu ofal dydd.
- Rhoddodd rhieni wybod y byddai'n eu helpu i ymdopi pe bai gwell dealltwriaeth gan y gymuned ehangach ynglŷn ag anableddau a bod anableddau na allwch eu gweld yn cael eu derbyn yn well.
- Gwell cyfleusterau ar gyfer teuluoedd plant anabl.
- Mwy o gefnogaeth gan y sector gwirfoddol ac elusennol.
- Problemau wrth reoli pryder eu plant pan maent mewn man cyhoeddus neu ddim yn eu gofal.

Nododd adborth o sesiynau ymgynghori gyda phlant y themâu cyffredin a ganlyn.

- Siaradodd y plant am yr anawsterau y maent yn ei gael wrth gyfarfod ffrindiau y tu allan i'r ysgol. Pan rydych yn ifanc, mae cynllun chwarae anghenion arbennig, nid ydynt ar gael os ydych yn hŷn. Dywedodd y plant yr hoffent gael clwb lle gallant gyfarfod eu ffrindiau.
- Dywedodd rhai plant bod amgylcheddau swnllyd yn anodd iddynt, fel mynd i siopau mawr, pyllau nofio neu ganolfannau chwaraeon.
- Hoffai rhai plant fynd allan ar eu pen eu hunain ond mae'r rhieni yn poeni am blant eraill yn bwllo neu'n cymryd mantais ohonynt.
- Dywedodd y plant pa mor anodd ydyw iddynt wneud penderfyniadau.
- Dywedodd un plentyn oherwydd nad yw ei symudedd yn dda, ei fod yn cael trafferth mynd allan, yn enwedig i lawr allt. Mae hyn yn amharu ar ei weithgareddau cymdeithasol a hamdden.

- Dywedodd y plant eu bod yn dibynnu ar eu rhieni i'w helpu gyda'r pethau y maent yn eu cael yn anodd, ac roedd gan un plentyn weithiwr cymdeithasol oedd yn mynd â fo allan.
- Hoffai'r plant gael ystod ehangach o weithgareddau i'w gwneud y tu allan i'r ysgol, fel gweithdai celf, gweithgareddau awyr agored, teithiau i barciau gweithgaredd a rhywle i gael hwyl, cyfarfod ffrindiau, a mwynhau beicio, cerddoriaeth a dawns.
- Dywedodd yr athrawon yr hoffent gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sydd ar gael i blant rŵan bod rhai o'r cynlluniau chwarae wedi cau.

Gofalwyr ifanc

Canfyddiadau o'r ymgynghoriad ac ymgysylltiad gyda gofalwyr ifanc.

Y pethau heriol i ofalwyr ifanc oedd: canolbwyntio, cyfathrebu, bod yn hyderus a gwneud ffrindiau (o bosib oherwydd eu swyddogaeth ofalu). Roedd eu hanghenion fel a ganlyn.

- Cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan athrawon i lwyddo yn academiaidd;
- Eirioli wrth ymdrin â gweithwyr proffesiynol, efallai na fyddant yn gwrando ar ofalwyr ifanc, yn enwedig y rhai ieuengaf.
- Gwasanaethau cwnsela a chefnogaeth gyda'u hanghenion iechedd eu hunain.
- Problemau yn gwneud apwyntiad Meddyg Teulu.
- Diffyg ymwybyddiaeth a pharch gan rai gweithwyr proffesiynol, yn enwedig mewn iechedd.
- Gwybodaeth hygyrch hawdd i'w ddefnyddio, naill ai ar-lein neu un-i-un heb defnyddio jargon.
- Cael cydnabyddiaeth, cefnogaeth a gwrandawriad gan ffrindiau, teulu a gweithwyr proffesiynol ym mhob maes.
- Llefydd i fynd i wneud ffrindiau a chael hwyl.

Roedd canfyddiadau o ymgynghoriad ac ymgysylltiad ynglŷn â gofalwyr sy'n oedolion ifanc wedi nodi bod angen penodol am ofal seibiant a chefnogaeth ymarferol, gwybodaeth a chefnogaeth 1-1. Mae rhai gofalwyr yn defnyddio cefnogaeth seibiant i'w galluogi i fynd allan fel teulu, heb fod un aelod o'r teulu yn gorfod aros adref i ofalu. Mae'n well gan eraill gefnogaeth ymarferol gyda thasgau yn y cartref fel nad oes gan y gofalwr ifanc cymaint i'w wneud ar ôl dod adref o'r coleg, gan ryddhau amser i astudio. Gall teimlo eu bod wedi eu hynysu, weithiau oherwydd problemau cludiant, hefyd fod yn broblem ar gyfer rhai gofalwyr sy'n oedolion ifanc.

Pobl hŷn

Gofal Cartref

Dywedodd y rhan fwyaf o bobl bod gweithwyr gofal yn eu trin ag urddas, cwrteisi a pharch. Roedd sylwadau yn cynnwys – 'fel ffrindiau yn dod'; 'fel arfer yn braf iawn'.

Ond, roedd pobl a oedd yn llai bodlon gyda'u gwasanaeth yn dweud 'gofalwyr heb eu hyfforddi, rhai yn ddigywilydd, swta, ddim yn gwrando'. Yn anffodus, roedd un person yn teimlo dan fygythiad o golli eu gofal a chefnogaeth pe byddent yn cwyno neu'n mynegi pryder.

Mewn perthynas â gofal yn y cartref:

- Mae pobl yn pryderu ynglŷn ag a ydynt yn gallu cael gofal a chefnogaeth tymor byr yn y cartref yn dilyn llawdriniaeth ac yn rhoi gwybod bod llawer o'r cyfrifoldeb yn aml yn syrthio ar ofalwyr yn y teulu. Ond, dywedodd tua hanner y bobl a gysylltodd â'r Panel Dinasyddion bod ganddynt neb i'w cefnogi. I rai, roedd hyn oherwydd bod gan eu partner neu aelod arall o'r teulu eu hanghenion gofal a chefnogaeth eu hunain. Nododd rhai eu bod yn sengl, heb blant, neu eu plant wedi symud i ffwrdd, wedi adleoli oddi wrth eu teulu neu wedi gwahanu oddi wrth eu partner. Nododd rhai pobl hefyd mai nhw oedd 'yr olaf yn y teulu' ac roedd rhai yn bryderus, ddim eisiau bod yn 'faich' ar deulu neu angen pecyn gofal cymdeithasol. Rhoddwyd gwybod am broblemau mewn perthynas â mynediad i gymorth, cyngor a chefnogaeth neu ofal mewn argyfwng gan gynnwys mynediad i offer.
- O ran yr anghenion oedd anoddaf i'w diwallu, yn bennaf roedd pobl yn bryderus ynglŷn â chynnal annibyniaeth neu gymorth gyda bywyd bob dydd. Crybwyllodd pobl hylendid, cynnal tai, siopa, cynnau tân glo, coginio, glanhau, a chadw symudedd. Nododd llawer o bobl hefyd yr anhawster a ddaw gydag arwahanrwydd cymdeithasol ac unigedd.
- Mae cefnogi pobl i reoli cymryd meddyginiaeth ar ôl llawdriniaeth neu drin cyflwr cronig yn bwysig iawn.
- Roedd ansawdd gofal yn amlwg mewn ymatebion ac roedd cael gofal gan rywun sy'n siarad eich iaith yn bwysig iawn i bobl gyda dementia.
- Credir bod annibyniaeth yn hanfodol ar gyfer iechyd meddwl da a lles cyffredinol. Ond, mae rhai pobl hŷn sy'n fodlon dibynnu ar eraill i gael cefnogaeth gyda gweithgareddau bob dydd a gallant fod yn ddig oherwydd cynigion gan y gwasanaethau galluogi.

Roedd syniadau ar gyfer gwella gofal yn y cartref yn cynnwys:

- Mwy o amser i weithwyr wella lles, bod yn fwy ymwybodol o anghenion a deall anghenion/dymuniadau pobl yn well.
- Cynlluniau gofal sy'n ystyried anghenion gofalwyr y teulu hefyd.
- Gweithwyr gyda mwy o brofiad gofal iechyd/ysbyty.
- Cael gwybod os na all y gweithiwr gyrraedd ar amser.
- Cadw at yr amseroedd a gytunwyd os yw'r gefnogaeth yn ymwneud â meddyginiaeth.
- Sicrhau bod gan weithwyr sgiliau bywyd sylfaenol, fel coginio, defnyddio peiriannau cartref arferol (microdon, peiriant golchi).
- Darparu gweithwyr sy'n siarad Cymraeg.

- Cefnogaeth yn y nos – ar gyfer gofalwyr lle mae angen dau yn ystod y dydd.

Dementia

Mae pobl yng Ngogledd Cymru yn pryderu am ddiffyg gwybodaeth a chefnogaeth ar ôl diagnosis o ddementia, gan gynnwys diffyg hawliau budd-dal. Rhoddodd rhai wybod eu bod yn teimlo bod niferoedd cudd o bobl yn byw gyda dementia a gofalwyr nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau, yn enwedig gyda phobl dan 65 efallai nad oes ganddynt fynediad i ofal preswyl/seibiant priodol. Nid yw pobl yn eu pedwardegau a phumdegau eisiau cael gwasanaethau ochr yn ochr â phobl yn eu wythdegau.

Iechyd, anableddau corfforol a nam ar y synhwyrâu

Heriau

- Mae diffyg ymwybyddiaeth hefyd am ddiogelwch a phroblemau mynediad i bobl mewn trefi a chymunedau. (Enghraifft: pan mae gennych nam ar y golwg ac mae pobl yn parcio ar y palmant, gall fod yn beryglus).
- Mae diffyg dealltwriaeth a rhagfarn tuag at bobl ag anableddau. (Enghraifft, roeddwn i a fy ffrind yn teithio ar y trên a dechreuodd bobl wneud hwyl o fy ffrind, dweud pethau a chwerthin arno oherwydd ei anabledd dysgu ac anabledd corfforol.)
- Rydym yn poeni y byddwn yn colli gwasanaethau oherwydd y toriadau. Pan mae gennych anabledd fel byddardod, mae'n anabledd oes ac mae angen cefnogaeth am oes. Os bydd gwasanaeth yn dod i ben, o lle bydd pobl yn cael y gefnogaeth?

Anghenion heb eu diwallu, bylchau mewn darpariaeth

- Mae cludiant yn anodd i bobl ag anableddau, yn enwedig os ydych yn defnyddio cludiant cyhoeddus. Yn aml, nid yw pobl sy'n gweithio ar gludiant cyhoeddus yn deall eich anabledd, ac o ganlyniad nid ydynt yn helpu ac nid ydynt yn gwybod sut i gynnig cefnogaeth. Er enghraifft, rwy'n credu y dylai pawb sy'n gweithio gyda chludiant cyhoeddus gael hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd ac yn gallu cyfathrebu ychydig mewn iaith arwyddion sylfaenol.
- Nid oes digon o ymwybyddiaeth yn adrannau'r cyngor fel cludiant, priffyrdd, gwasanaethau hamdden a gwasanaethau amgylcheddol. Yn aml maent yn datblygu pethau heb feddwl am bobl ag anableddau ac o ganlyniad mae'n golygu bod adeiladau yn aml yn anhygyrch, nad oes gan balmentydd ymylon isel, ac na all pobl sy'n fyddar neu ddall gyfathrebu neu ddefnyddio gwasanaethau ayyb.
- Mae angen i bobl gael eu cynnwys mwy a chael gwrandawriad. Enghraifft: Mae gen i syniad sut i gefnogi'r cyngor i adnabod peryglon ar gyfer pobl anabl a pe byddwn yn cael cyfle i siarad gyda rhywun o'r adran gywir gallwn helpu, ond nid

wyf yn meddwl bod sgiliau pobl yn cael eu defnyddio ddigon i helpu i ddatrys problemau awdurdod lleol.

- Mae'r meini prawf yn tynhau ac mae'n anoddach cael gwasanaeth.
- Os nad ydych yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gwasanaethau, mae'n anodd fforddio i'w prynu ar eich cyfer chi eich hun, mae pethau fel offer a gwasanaethau arbenigol yn ddrud.
- Nid oes cartrefi gofal sy'n arbenigo mewn byddardod na chartrefi gofal sydd â staff sydd wedi'u hyfforddi mewn iaith arwyddion, felly ni all pobl sy'n fyddar gyfathrebu yn iawn.
- Gall amseroedd aros i gael cefnogaeth neu i wneud pethau fod yn rhy hir.

Problemau Eraill

- Mae'n bwysig bod cymunedau a phobl yn cysylltu mwy â gwasanaethau fel y gallant roi eu barn.
- Nid yw pobl ag anableddau bob amser yn teimlo yn ddiogel mewn cymunedau ac mae hyn yn aml oherwydd nad yw pobl eraill yn deall yr heriau y maent yn eu wynebu. Mae angen gwella ymwybyddiaeth am y problemau syml fel y gall pobl ystyried pobl gydag anableddau yn yr hyn a wnawn.

Anableddau dysgu ac awtistiaeth

Nododd y grwpiau trafod yr angen am waith â thâl i roi ymdeimlad o hunan werth a chydabod cyfraniad gwerth chweil pobl i gymdeithas. Hefyd, dywedodd pobl ag anableddau dysgu yr hoffent gael rhagor o gyfleoedd i ymuno yn gymdeithasol gyda grwpiau o bob rhan o gymdeithas, nid y rhai y trefnwyd ar gyfer pobl ag anableddau yn unig. Thema arall oedd yr angen am gludiant da i gael gwasanaethau (problem benodol mewn ardaloedd gwledig) a mynegodd nifer o bobl yr awydd i ddysgu gyrru. Nodwyd hefyd yr angen am ragor o gefnogaeth ar gyfer oedolion awtistig.

Iechyd meddwl

Nododd y gweithdai a'r arolygon y problemau a ganlyn:

- Cludiant: yn cyfyngu mynediad i amwynder a gwasanaethau lleol gan fod costau tacsï mor ddrud, mae angen gwell cludiant cymunedol a gwell gwasanaethau bws.
- Mae costau hefyd yn cyfyngu ar fynediad i weithgareddau yn y gymuned leol, byddai hefyd yn dda cael gweithgareddau mwy fforddiadwy a rhagor o wybodaeth am y gweithgareddau sydd ar gael.
- Mae cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymdeithasol yn bwysig iawn i'r grŵp hwn. Fyddai llawer ddim yn gofyn i deulu neu ffrindiau am gymorth gan nad ydynt eisiau rhoi baich arnynt. Maent yn dueddol o gadw pethau i'w hunain gan nad ydynt yn teimlo bod eraill yn eu deall, gan gynnwys meddygon teulu. Dywedodd un unigolyn:

“Byddai’n well gen i fynd i’r ysbyty na gadael i’r gymuned leol wybod bod gen i broblem iechyd meddwl, yn enwedig sgitsoffrenia”.

- Roedd cyfranogwyr yn gwerthfawrogi’r gefnogaeth sydd ar gael: teulu, Timau Iechyd Meddwl, Tîm Argyfwng, Galw Heibio, Cyswllt Cymdeithasol, Mind, eiriolaeth a chyrsgiau dysgu ar gyfer gwella a’r rhaglen les.
- Roedd y rhai a fynychodd yn gwerthfawrogi’r sesiynau galw heibio. Dywedodd un person:
“mae’r sesiynau galw heibio hyn yn fy helpu i deimlo cysylltiad a chefnogaeth gan staff a ffrindiau, sy’n fy mharatoi ar gyfer yr wythnos. Nid wyf yn teimlo fy mod ar fy mhen fy hun”.
- Mae’n bwysig iawn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth oherwydd fel arall ni fyddai ganddynt yr ysgogiad na’r hyder i wneud pethau gwahanol a byddent yn aros adref heb ryngweithio cymdeithasol.
- Mae angen i unigolion fod â rhywun i gysylltu â nhw mewn argyfwng. Os nad yw aelod staff neu weithiwr proffesiynol ar gael, nid yw’n ddigon da i gael eu galw yn ôl y diwrnod nesaf. Os yw’r unigolyn mewn argyfwng maent angen cymorth yn syth.
- Croesewir cymorth yn y cartref, oherwydd mae unigolion yn teimlo’n ddiogelach yma ac mewn rheolaeth.
- Diffyg gweithiwr allweddol / cydlynnydd gofal os dan Seiciatrydd, oherwydd nad ydym yn gallu cysylltu â nhw pan fo angen ar hyn o bryd.
- Mae’r rhwystrau i gynnydd yn cynnwys: pryder, straen, dim fflach (gyda staff/frindiau) a blinder.

Gofalwyr

Mae prif ganfyddiadau gweithgareddau ymgysylltu wedi’u rhestru isod.

Sut i gefnogi’r gofalwr trwy ddiwallu anghenion y person dan ofal yn well

- Gall offer ac addasiadau a thechnoleg gynorthwyl ddarparu gwasanaethau gwerthfawr iawn. Gall broblemau gynnwys anghenion hyfforddi a rhestrau aros.
- Seibiant, gan gynnwys egwyl tymor byr.
- Parhau ag asesiadau Gofal Iechyd (CHC) gan gynnwys seibiant tymor byr i ofalwyr
- Mwy o weithgareddau i bobl y gofelir amdanynt, yn enwedig unigolion â dementia
- Cefnogaeth ddibynadwy o ansawdd dda ar gyfer pobl dan ofal
- Cefnogaeth pan fo’r gofalwr yn sâl, mewn argyfwng ac oherwydd triniaeth a gynlluniwyd
- Cludiant ysbyty dibynadwy sy’n cynnwys cludiant i’r gofalwr. Mae gofalwyr angen mynediad cyfartal i gludiant, hyd yn oed os nad yw’r person dan ofal gyda nhw, i’w galluogi i gasglu presgripsiwn er enghraifft.
- Gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol – gweithwyr a all helpu gyda meddyginiaeth yn ogystal â gofal personol

Cefnogaeth yn benodol i ofalwyr

- Gwybodaeth a chynghor hygyrch (yn un lle fyddai orau)
- Cymorthfeydd, canolfannau, mannau siarad a gwasanaethau galw heibio lleol
- Eiriolaeth ar gyfer y gofalwr
- Cefnogaeth un i un ar gyfer y gofalwr, fel clust i wrando a chefnogaeth dros y ffôn 24 awr y dydd
- Cymdeithasu a grwpiau gofalwyr yn y gymuned leol
- Mynediad i weithgareddau hamdden
- Cyfleoedd gwirfoddoli
- Addysg, sgiliau a chyflogaeth
- Cydnabyddiaeth a pharch, ymgynghori fel partneriaid mewn gofal, gan gynnwys pan fydd person yn mynd i ofal tymor hir
- Gwell cyfathrebu rhwng bob parti sydd ynghlwm â darparu cefnogaeth i ofalwyr a'r rhai sy'n derbyn gofal
- Cefnogaeth trydydd sector – mae gofalwyr yn gwerthfawrogi'r ystod o gefnogaeth a ddarperir gan sefydliadau trydydd sector
- Cefnogaeth i'r gofalwr pan ddaw eu swyddogaeth ofalu i ben, gan gynnwys materion cyflogaeth, budd-daliadau a thai

Nododd yr ymgynghoriad hefyd y bylchau canlynol mewn gwasanaethau:

- Diffyg cludiant mewn ardaloedd gwledig
- Diffyg gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys gofalwyr cartref â thâl
- Yr anallu mewn rhai ardaloedd i wneud apwyntiadau gyda meddyg penodol, sydd ei angen ar gyfer cysondeb, yn enwedig ar gyfer pobl gydag anghenion iechyd meddwl neu dementia
- Diffyg ymwybyddiaeth ymysg staff gofal sylfaenol ynglŷn â gofalwyr, eu pwysigrwydd a'u hanghenion
- Dim digon o wasanaethau cwnsela ar gyfer gofalwyr y mae eu hiechyd meddwl wedi'i effeithio gan eu swyddogaeth ofalu; mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd effaith a straen y rôl ofalu
- Dim digon o ystod, argaeledd a hyblygrwydd seibiannau byr a seibiant ar gyfer gofalwyr
- Bwlch yn y gefnogaeth ar gyfer gofalwyr pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau
- Cyllid cynaliadwy, tymor hir ar gyfer prosiectau cefnogi gofalwyr

Roedd adborth arall yn cynnwys effaith negyddol gofalu ar iechyd; mae gofalu yn haws pan mae cefnogaeth dda gan deulu a ffrindiau (er bod rhai gofaluwr yn meddwl na all/na ddylai teulu orfod cefnogi oherwydd bod ganddynt eu bywydau eu hunain); amrywiaeth eang rhwng gofaluwr sy'n teimlo wedi'u cefnogi a gofaluwr sy'n dweud nad oes ganddynt gefnogaeth. Roedd llawer o ofaluwr, oni bai eu bod yn cael anogaeth, yn methu gweld sut y mae eu cymuned yn helpu/gallu helpu. Roedd rhai gofaluwr hŷn yn poeni am y dyfodol ac na fyddent yn gallu gofalu bellach.

Cyn-filwyr

Nododd grŵp ffocws a gynhaliwyd gyda chyn-filwyr, ac a drefnwyd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, y materion a ganlyn: gwell cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng y fyddin a gwasanaethau statudol/cyhoeddus; wrth gynllunio i ryddhau cyn-filwyr sydd wedi'u hanafu o'r ysbyty, mae angen sefydlu tîm amlddisgyblaeth i'w hailsefydlu; gwell ymwybyddiaeth "wedi'i dargedu" o'r hyn sydd ar gael i gyn-filwyr gan gynnwys datblygu gwefan i gyn-filwyr sy'n cynnwys popeth y gall cyn-filwr fod ei angen ar gyfer trosglwyddo; y syniad o achrediad math "buddsoddwyr mewn pobl" i staff; datblygu cynllun "cyfeillgar i filwyr" ar gyfer eiddo, efallai wedi'i gysylltu i lle mae'r pencampwyr wedi'u lleoli.

Digartrefedd

Roedd adborth gan y grŵp ffocws gyda grŵp o bobl ddiamddiffyn a phobl gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau yn cynnwys pryder nad oedd gwasanaethau yn deall eu hanghenion. Er enghraifft, doctoriaid yn rhagdybio neu ddim yn gwrando, swyddogion tai ddim yn deall problemau iechyd meddwl neu yn cael eu rhoi mewn categorïau gan staff yn y Ganolfan Waith, yr Adran Gwaith a Phensiynau a gwasanaethau iechyd. Nododd un person bod teithio i gyfweiliadau ac i'r gwaith yn broblem a nododd person arall gydag anableddau dysgu bod problem dod o hyd i hyfforddiant priodol. Gall rheoli cyllid fod yn anodd pan mae problemau camddefnyddio sylweddau, neu pan mae anawsterau hawlio'r budd-dal cywir neu gwblhau'r ffurflenni angenrheidiol. Gall ddod o hyd i lety fod yn anodd, yn enwedig os yw'r person o'r tu allan i'r ardal. Gall cael gwasanaethau iechyd meddwl hefyd fod yn anodd. Nododd eraill yr heriau y maent yn eu wynebu oherwydd problemau iechyd, er enghraifft, cysgu llawer a chael anawsterau gyda sefyllfaoedd cymdeithasol oherwydd iselder.

Cafodd y bobl a gyfwelwyd gefnogaeth gan y gwasanaethau canlynol: Arc Communités, Dawn Centre, Nyrs Seiciatryddol Cymunedol, gweithiwr Nacro, Cais, Hafal a Mind Aberconwy (gan gynnwys prosiect celf). Rhoddwyd cefnogaeth gan ffrindiau, teulu ac aelodau cymunedol eraill hefyd, ond cafwyd sylw eu bod wedi llosgi eu pontydd gyda ffrindiau a theulu.

Roedd gan bobl farn gymysg ar ansawdd y gefnogaeth – dywedodd rhai bod angen rhagor o amser, ei fod yn teimlo fel eu bod yn ymladd i gael cefnogaeth, mae strwythurau yn newid a chyllid yn dod i ben. Dywedodd un person:

'Weithiau mae eich problemau chi eich hun yn eich rhwystro rhag cael cymorth, nid ydych yn gwybod eich bod angen cymorth nes y mae'n rhy hwyr'.

Y meysydd yr oedd pobl angen mwy o gymorth gyda nhw oedd lle, cael cyfleoedd cyflogaeth, cymryd meddyginiaeth a chynllunio camddefnyddio sylweddau. Gall atgyfeiriadau at Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol gymryd hyd at bedair wythnos pan weithiau nad yw'n broblem a all aros. Dywedodd pobl eu bod angen rhywun i siarad â nhw, i deimlo eu bod yn cael gwrandawriad a pharhad staff.

Nododd aelod o staff:

'Oherwydd credyd uniongyrchol a newidiadau i fudd-dal [nad yw rhent bellach yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'r landlord] bydd llawer mwy o bwysau a phobl yn mynd yn ddigartref.'

Pobl â nodweddion a ddiogelir

Heriau

- Mae diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o grwpiau wedi'u diogelu, nid yw pobl yn gwybod sut i ymgysylltu â grwpiau, sy'n creu rhwystrau i bobl deimlo eu bod yn cael eu derbyn a'u croesawu ac i bobl deimlo bod ganddynt yr iaith a'r wybodaeth gywir i'w derbyn a bod yn groesawgar.
- Mae ofnau sylweddol gan y gymuned LGBT mewn perthynas â barn ac agweddau negyddol. Mae achlysuron yng Ngogledd Cymru lle mae meddygon teulu, staff nyrsio a staff iechyd eraill wedi rhwystro a methu deall anghenion iechyd y Gymuned LGBT. Er enghraifft, mae enghreifftiau lle nad yw staff iechyd yn deall triniaethau hormonau, goblygiadau llawdriniaeth a gofynion meddyginiaeth pobl drawsrywiol.
- Mae hefyd broblemau o ran cofrestru ar gyfer sgrinio a phrofi, er enghraifft os yw person yn newid rhyw, efallai na fyddant yn cael cynnig prawf fel sgrinio serfigol neu brostad.
- Gall fod ofn hefyd ynglŷn â dweud wrth weithwyr proffesiynol os yw person wedi newid rhyw oherwydd agweddau negyddol a all effeithio ar driniaethau, profion ac anghenion gofal, er enghraifft os ydych yn dewis byw fel gwryw ac yn cael profion meddygol, gall olygu nad yw'r profion yn nodi anghenion triniaeth a gofal y rhyw genedigol (benyw).
- Mae problemau tebyg ar gyfer pobl sydd â barn grefyddol benodol. Gallant wynebu yr un agweddau negyddol, yn enwedig os nad yw eu cred yn caniatáu ar gyfer arferion a thriniaethau meddygol cyffredin.
- Os mai eich iaith gyntaf yw Cymraeg, mae nifer o broblemau os hoffech gael gwasanaethau. Mae prinder therapyddion iaith a lleferydd, staff gofal yn y cartref a gofal preswyl, staff cartrefi gofal, gwasanaethau Therapi Galwedigaethol a chwnsela. Yn aml iawn, mae ffrindiau a theulu yn gorfod llenwi'r bylchau i ddehongli a gall hyn fod yn amhriodol ar adegau. Mae rhai pobl Cymraeg yn teimlo ei fod yn anfantais deublyg os ydych yn siaradwr Cymraeg a bod gennych anghenion eraill neu nodwedd arall a ddiogelir.
- Mae cyfieithiad Cymraeg o'r iaith a therminoleg LGBT cyffredin wedi bod yn anodd ei gael ar gyfer rhai grwpiau.

- Rhoddir gwybod am ymchwil yn aml gan ddefnyddio iaith gymhleth a gall fod yn anfforddiadwy ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol, er enghraifft, mae rhai llyfrau a phapurau yn ddrud iawn. Ond, mae adnoddau am ddim, fel “it’s just good care”.

Anghenion heb eu diwallu neu fylchau mewn darpariaeth

- Addysg yw un o’r bylchau mwyaf, ac mae cael gwybodaeth a dealltwriaeth yn allweddol i gael gwared ar gamsyniadau a rhagfarn.
- Mae problemau sylweddol gydag iechyd ac yn rhai meysydd gofal cymdeithasol mewn perthynas â hyfforddiant staff a dealltwriaeth mewn perthynas â phobl â nodweddion a ddiogelir.
- Mae pobl ifanc yn dechrau archwilio eu rhyw a thueddfryd rhywiol yn ieuengach, ac mae’n bwysig bod gwasanaethau yn hygyrch i bobl ifanc ac wedi’u cynllunio i ddiwallu eu hanghenion.
- Mae’n bwysig targedu ysgolion, a bydd addysg gynnar yn lleihau nifer o’r rhwystrau rydym yn eu gweld heddiw.
- Mae dementia yn broblem gynyddol, ac yn ystod hyfforddiant dementia nid yw pobl â nodweddion a ddiogelir yn cael eu crybwyll yn aml ac mae problemau ac ystyriaethau penodol y mae angen i staff iechyd a gofal cymdeithasol fod yn ymwybodol ohonynt ac â sgiliau i ymdrin â nhw. Er enghraifft, bu achlysuron lle mae pobl Traws sy’n byw â dementia wedi anghofio eu bod wedi newid rhyw a gallant fod wedi’u heffeithio yn emosiynol mewn nifer o ffyrdd. Hefyd, efallai y bydd pobl sydd wedi byw fel person hoyw neu lesbian ers nifer o flynyddoedd ond yn cofio cyfnod cyn hyn ac eto mae problemau tebyg a all godi mewn perthynas â iaith, crefydd, ethnigrwydd ayyb.
- Ychydig iawn o wasanaethau sy’n ddwyieithog neu â siaradwr Cymraeg yn bresennol, a gall hyn yn aml eithrio siaradwyr iaith gyntaf, gan eu hatal rhag cael gwasanaethau neu, yn waeth, eu gadael mewn gwasanaethau heb ffordd o gyfathrebu eu hanghenion. Mae ysbytai a chartrefi gofal yn enghreifftiau.
- Ychydig iawn o wasanaethau sy’n darparu ar gyfer pobl â nam ar y synhwyrac ac eto yn aml iawn byddant wedi’u heithrio rhag cael gwasanaethau neu grwpiau oherwydd nad oes gwasanaethau dehongli neu wybodaeth hygyrch gweledol.
- Mae pobl ag anableddau dysgu, Awtistiaeth ac Asberger’s yn aml yn grŵp sydd wedi’u hanghofio mewn perthynas â thueddfryd rhywiol a ffafiaeth rhywedd, ac mae enghreifftiau lle mae gweithwyr cefnogi wedi methu cefnogi pobl o ran eu dymuniadau neu yn rhai enghreifftiau wedi methu cefnogi pobl yn briodol gan eu gadael yn ddiamddiffyn.
- Dylai bod rhagor o gefnogaeth i rieni a theuluoedd i’w galluogi i deimlo’n hyderus a chefnogi aelod o’r teulu neu ffrind.

Problemau Eraill

- Mae’n bwysig nodi bod y broses gyfreithiol i newid rhyw yn dal i fod yn broses hir a chymhleth iawn. Mae’r llysoedd angen nifer o ffynonellau tystiolaeth cyn y gellir caniatáu unrhyw newid, a gall yr wybodaeth angenrheidiol fod yn anodd ei brofi. Hefyd, mae’r ffurflenni eu hunain yn gymhleth iawn a ddim yn hawdd eu llenwi.

Adborth gan y grŵp cefnogi a rhannu gwybodaeth ar gyfer y gymuned LGBT

Mae heriau'r grŵp yn bennaf yn ymwneud â'r gwasanaeth iechyd, ond roeddent yn teimlo bod angen mwy o ymwybyddiaeth ynglŷn â'r holl broblemau i bobl LGBT yn y gymuned, iechyd a gofal cymdeithasol.

Esboniodd un person am ffrindiau a aeth at y meddyg teulu i holi am IVF neu IUI. Dywedwyd wrth un cwpl nad oedd arian a chaniatawyd 2 rownd o driniaeth i'r cwpl arall. Roedd y ddau yn rhan o BIPBC. Rhoddwyd gwybod bod diffyg cysondeb, ac mae angen gwneud gwaith ar y polisïau a threfnau yng Ngogledd Cymru.

Pan roedd un ddynes mewn perthynas o'r un rhyw mewn clinig IUI, ar ôl clywed bod y driniaeth wedi bod yn aflwyddiannus, dywedodd y nyrs wrthi 'dal i drio, efallai y gwnaiff ddigwydd yn naturiol'

Mae diffyg ymgysylltu gan feddygon teulu pan fydd hyfforddiant ar faterion LGBT yn cael ei gynnig. Nododd un person bod eu meddyg teulu yn trio yn galed ond nid yw'n llwyddo.

Mae rhai agweddau o fod yn drawsrywiol nad yw meddygon teulu neu eraill yn gwybod unrhyw beth amdano – rydych angen pobl arbenigol mewn seiciatreg neu seicoleg, ac maent hefyd angen gweithwyr proffesiynol sy'n arbenigwyr mewn Therapi Hormonau.

Gall sgrinio hefyd fod yn broblem i bobl sydd wedi newid rhyw gan nad yw systemau iechyd wedi'u cynllunio ar eu cyfer. Er enghraifft:

- Mae dynion yn cael eu sgrinio am Ymlediadau Aortig Abdomenol yn 65 oed ond nid yw merched yn cael eu sgrinio gan nad yw YAA yn digwydd mewn merched tan yn hwyrach yn eu bywydau. Ni all y gwasanaeth iechyd adnabod merched sydd wedi newid eu rhyw er y gall YAA barhau i fod yn broblem iddynt.
- Mae merched yn cael profion sgrinio'r fron o fod yn 50 oed. Os bydd dynes wedi newid ei rhyw, ni fydd yn cael ei galw am brawf oherwydd ei bod wedi'i chofrestru fel dyn, er bod tystiolaeth yn dangos y gall hormonau gwrywaidd gyflymu canser.
- Mae problemau tebyg gyda phrofion ceg y groth a'r prostad, ac nid yw pobl yn cael eu galw oherwydd eu bod wedi newid eu rhyw.

Problem arall sy'n digwydd yw pan fydd rhywun yn newid eu henw, mae eu hanes meddygol yn cael ei golli a all fod yn broblem fawr os ydych yn dioddef clefyd siwgr, ag alergedd i rhywbeth neu â chyflwr meddygol arall sydd angen ei fonitro yn barhaus.

Dywedodd pobl yn y grŵp hwn eu bod yn meddwl ddwywaith am fynd i'r feddygfa gan nad yw derbynyddion bob amser yn gyfrinachgar a gall achosi embaras mawr. Mae'n rhaid i'r broses brysbennu yn y feddygfa weithio yn fwy effeithiol.

Awgrymodd un person y gall meddygon teulu a gweithwyr proffesiynol eraill ffonio llinell wybodaeth y Beaumont Society i gael cymorth a chynghor yn hytrach na'i gael yn anghywir.

Dywedodd un person y byddent yn mynd i ysbyty'r Countess of Chester yn hytrach nag Ysbyty Maelor, Wrecsam. Nid yw'r gwasanaeth y tu allan i oriau yn hawdd i'w ddefnyddio ac mae'r system pan fyddwch yn cyrraedd yr ysbyty cyn gweld unrhyw un yn anodd iawn yn enwedig os oes gennych blentyn sy'n sâl.

Yn gyffredinol, roeddent yn teimlo bod angen newid y ffordd o feddwl ynglŷn â darparu gwasanaethau. Rhoi pethau yn ôl yn y gymuned gan ddefnyddio clystyrau meddygon teulu ac ysbyty bach. Gwneud mwy ar lefel gofal sylfaenol. Mewn ardaloedd gwledig, gall ddefnyddio technoleg newydd fel Skype atal peth o'r teithio sy'n cymryd amser i gleifion neu weithwyr proffesiynol.

Gwell defnydd o sefydliadau trydydd sector, gallant helpu i liniaru peth o'r pwysau mewn gofal sylfaenol.

Ni roddir gwybod digon am droseddau casineb.

Atodiad 1b: Adborth gan y cyhoedd gan gynnwys y panel dinasyddion

Cyflwyniad

Defnyddiwyd y dulliau isod ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer asesiad poblogaeth Gogledd Cymru:

- Anfonwyd holiadur at sefydliadau yn gofyn am eu barn ac am unrhyw dystiolaeth a oedd ganddynt megis mesuryddion perfformiad neu adroddiadau ymgynghori.
- Grwpiau trafod gyda defnyddwyr gwasanaeth. Fe anfonodd rhai siroedd holiaduron hefyd.
- Roedd holiadur i'r cyhoedd ar gael ar wefan Panel Dinasyddion ynghyd â chyfweliadau gydag aelodau o'r Panel Dinasyddion. Cyflwynodd Ynys Môn holiaduron ychwanegol ar gyfer y cyhoedd hefyd.
- Gweithdai gyda staff a chynghorwyr.
- Adolygiad o ymchwil ac ymgynghoriad perthnasol gan gynnwys deddfwriaeth, strategaethau, cynlluniau comisiynu, asesiadau anghenion ac adroddiadau ymgynghori

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi casgliadau'r Panel Dinasyddion a holiadur a ddosbarthwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn i bobl sydd ddim yn derbyn gofal a gwasanaethau cefnogaeth ar hyn o bryd. Mae'r prif gasgliadau wedi'u cynnwys yn rhan 'beth mae pobl yn ei ddweud wrthym?' ym mhob pennod. Mae rhestr lawn o'r holl wybodaeth a gasglwyd i lywio'r asesiad poblogaeth wedi'i gynnwys fel atodiad i'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb.

Dull y panel dinasyddion

Fe hysbysebodd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy am aelodau ar gyfer Panel Dinasyddion ac fe wnaethant ddefnyddio cysylltiadau a wnaed drwy brosiectau Llais Cymunedol. Cafodd yr holiadur ei hysbysebu ar y wefan <http://www.llaisygogledd.cymru> a'i hyrwyddo drwy rwydweithiau cyngor ac iechyd lleol.

Cafodd aelodau'r panel dinasyddion gyfle i gymryd rhan yn yr ymchwil asesiad poblogaeth drwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys cyfweliadau wyneb i wyneb, sgysiau dros y ffôn, gwibnegeseua neu lenwi arolwg ar-lein. Dewisodd y mwyafrif sgysiau wyneb yn wyneb neu lenwi'r arolwg ar-lein.

Cymerodd 34 o bobl o amrywiaeth o gefndiroedd ac oedran ran yn yr arolwg, gan gynnwys pobl o ledled Gogledd Cymru oedd yn byw mewn ardaloedd trefol, gwledig ac arfordirol. Cymerodd 16 dynes ac 13 dyn ran yn yr ymchwil, a dewisodd 5 o bobl beidio â dweud. Roedd tua hanner o'r rhai a ymatebodd yn 50 neu'n hŷn ac roedd saith o dan 30 oed, a 2 ohonynt yn iau na 21 oed. Soniodd tri o'r rhai a ymatebodd am gyfrifoldebau gofalu a soniodd dau am eu hanghenion gofal a chefnogaeth bresennol eu hunain. Roedd dau o'r rhai a ymatebodd wedi symud i'r ardal o du allan i'r DU.

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i bobl:

Rydym yn awyddus i gael gwybod pa ofal a chymorth y gall fod pobl eu hangen yn y dyfodol gyda'u hiechyd a'u lles. Rhowch eich hun yn y sefyllfa lle mae eich amgylchiadau neu rai rhywun sy'n agos atoch wedi newid, a'ch bod angen mwy o ofal a chymorth yn eich bywyd bob dydd. Efallai yr hoffech chi feddwl am fynd yn hŷn, methu symud o gwmpas cystal ag yr oeddech chi, neu ddatblygu problem iechyd neu anabledd difrifol.

1. Pa bryderon ydych chi'n meddwl a allai fod gennych wrth gynnal eich ffordd o fyw?
2. Beth fyddai bwysicaf i chi?
3. Pwy ydych chi'n meddwl y gallai eich cefnogi?
Gallu ysgogi - ffrindiau a theulu, iechyd, cymuned, gofal cymdeithasol
4. Pa anghenion cymorth yn eich barn chi y gall fod yn fwy anodd eu diwallu?

Casgliadau'r panel dinasyddion

Pryderon ynghylch cynnal eich ffordd o fyw

Y pryder mwyaf cyffredin y soniwyd amdano oedd cynnal annibyniaeth, gweithgareddau cymdeithasol a hamdden. Fe soniodd un unigolyn am weld ffrindiau yn dirywio'n sydyn ar ôl cael eu taro'n wael.

Pryder cyffredin arall oedd gallu defnyddio gwasanaethau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd un unigolyn:

'Dw i wedi meddwl yn aml am sut fydda i'n ymdopi pan na fydda i'n gallu gyrru'.

Mynegwyd pryderon gan bobl ynghylch sut y byddent yn addasu eu tŷ ac am y posibilrwydd o orfod symud os nad oedd modd addasu eu tŷ presennol.

'Dwi ofn y byddaf yn ormod o faich ac y byddaf yn cael fy anfon i gartref yn rhywle. Fuaswn i wir ddim yn hoffi hynny, mae gen i gymaint o atgofion gyda fy ngwraig yn y tŷ yma, allwn i ddim dioddef peidio byw yma.'

Roedd yna bryderon am arian a chyllid, ac yn aml roedd y rhain yn cael eu cysylltu â gallu parhau â chyflogaeth ac addysg. Roedd hyn yn cael ei fynegi'n aml gan bobl oedd wedi symud i'r DU i weithio neu oedd â gwaith eithaf corfforol ar hyn o bryd. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd ynghylch pam fod peidio cael digon o arian yn bryder yn cynnwys dymuniad i gefnogi plant (gan gynnwys drwy'r brifysgol) a pheidio gallu fforddio gofal o safon da.

Roedd nifer o bobl yn bryderus ynghylch sut y byddent yn cael gafael ar gymorth mewn argyfwng gan eu bod, neu petaent yn byw ar eu pen eu hunain. Er enghraifft:

'Y tawelwch meddwl o wybod petawn i wirioneddol angen cymorth y byddai rhywun yno i ddarparu'r gofal y byddwn ei angen'

Nid oedd gan un neu ddau o unigolion bryderon penodol, roedd un yn ceisio cadw'n brysur ac roedd un arall yn cael eu hysbrydoli gan bobl eraill, a'r gefnogaeth oedd ar gael gan y GIG.

Rhoddodd un unigolyn ddisgrifiad manwl o'u profiadau o ysbyty a gofal cymdeithasol a fyddai'n cael ei rannu'n llawn gyda'r gwasanaethau priodol.

Beth fyddai'n bwysig i chi?

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn adlewyrchu'r pryderon a fynegwyd yn y cwestiwn cyntaf. Fel uchod, roedd cynnal annibyniaeth yn bwysig i lawer o bobl a ymatebodd. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys coginio, gwaith tŷ a gallu teithio o gwmpas. Fe soniodd nifer o'r rhai a ymatebodd am yr amgylchedd, yn enwedig cerdded ar y traeth, dros y brynau a ger yr afon. Er enghraifft:

'Dwi'n caru'r brynau lle dwi'n byw ... taswn i'n gorfod mynd i'r ysbyty neu symud i ffwrdd i ddinas, fe fyddwn i'n torri fy nghalon'.

Roedd cynnal ymgysylltiad cymdeithasol a chymunedol hefyd yn bwysig i lawer o'r rhai a ymatebodd, ac roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys mynd i'r eglwys a chlybiau rygbi yn ogystal ag ymweld â phlant ac aelodau eraill o'r teulu. Fe soniodd llawer o bobl am bwysigrwydd cael rhywun i wirio eich bod yn iawn, ac fe wnaethant awgrymu y byddai'n ddefnyddiol cael cloch i ganu neu system ffrind/bydi.

Fe soniodd rhai o'r ymatebwyr am faterion eraill gan gynnwys gofal a chefnogaeth i osgoi aros yn yr ysbyty am gyfnod hir, talu'r biliau/morgais, rhoi trefn ar bethau, astudio a chael gyrfa ystyrlon, ansawdd gofal a derbyn gofal gan rywun sy'n siarad eich iaith (yn enwedig ar gyfer pobl sydd â dementia).

Pwy ydych chi'n meddwl y gallai eich cefnogi?

Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr nad oedd ganddynt neb i'w cefnogi. I rai, y rheswm dros hyn oedd fod gan eu partner neu aelod arall o'r teulu eu hanghenion gofal a chefnogaeth eu hunain. Fe soniodd rhai eu bod yn sengl, nid oedd ganddynt blant, roedd y plant wedi symud i ffwrdd, wedi ail-leoli i ffwrdd o'r teulu neu wedi gwahanu oddi wrth eu partner. Soniodd ychydig o bobl mai nhw oedd yr 'olaf o'u teulu'.

Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr y byddai eu partner neu deulu yn eu cefnogi, er enghraifft:

'Dwi'n lwcus fod gen i deulu cryf, dwi'n gwybod y byddant yn fy nghefnogi beth bynnag a ddaw'

Serch hynny, yn y rhan fwyaf o atebion i'r cwestiwn hwn, fe soniodd pobl am y cyfyngiadau ar faint o gymorth y gallent ei ddisgwyl neu ei eisiau gan ffrindiau, teulu neu'r gymuned leol. Fe soniodd rhai nad oeddynt eisiau bod yn 'faich' nac angen pecyn gofal cymdeithasol neu gefnogaeth yn ychwanegol i unrhyw gefnogaeth arall roeddynt yn ei dderbyn. Er enghraifft:

'Dydw i ddim eisiau iddynt [fy mhlant] fod yn ofalwyr i mi, ac fe hoffwn i feddwl bod yna ddarpariaeth ar waith i'w helpu a'u alluogi i fwynhau eu bywydau bob dydd er gwaetha'r ffaith bod eu rhiant angen gofal'.

‘Y peth pwysicaf fyddai peidio â bod yn faich ar fy nheulu.’

Yr ateb mwyaf cyffredin nesaf oedd gofal cymdeithasol neu staff nyrsio ac iechyd/GIG.

Fe soniodd ychydig llai o bobl am ffrindiau, ond gyda phryderon tebyg ynghylch faint o gymorth roeddynt eisiau gofyn amdano. Er enghraifft:

‘Mae gen i ddigon o ffrindiau agos a theulu a allai edrych ar fy ôl, pa unai a fyddent yn syrffedu ar fy helpu sydd yn fater arall, fe hoffwn i feddwl na fyddent, ond peth naturiol fyddai hynny.’

Fe soniodd ychydig o bobl am eu cymuned leol, gan gynnwys un a soniodd am eu pentref, un o'r tenantiaid yn eu hadeilad ac un arall yn y clwb rygbi. Fe soniodd rhywun arall am wirfoddolwyr gan eu bod yn ‘gwneud eu gwaith gydag angerdd’. Unwaith eto, roedd ganddynt bryderon tebyg am faint o gefnogaeth y gallai'r gymuned ei ddarparu:

‘Fedra i ddim dibynnu ar Samariaid drwy'r amser’

‘Er ein bod yn griw agos yn y pentref, allwn i ddim disgwyl i unrhyw un ddod i ofalu amdanaf’

Dywedodd un unigolyn:

‘Dwi'n meddwl y byddai cymysgedd o'r uchod yn ddatrysiad da’

Pa anghenion cymorth yn eich barn chi y gall fod yn fwy anodd eu diwallu?

Unwaith eto, roedd yr anghenion a grybwyllwyd fwyaf aml yn ymwneud ag annibyniaeth neu gymorth gyda bywyd o ddydd i ddydd. Bu pobl yn sôn am hylendid, cynnal a chadw'r tŷ, siopa, cynnau tân glo, coginio, glanhau a pharhau i symud.

Fe soniodd llawer am anhawster yn ceisio atal arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd. Er enghraifft:

‘Gallu mynd allan, fe fyddai hynny'n golygu llawer i mi, ond fe alla i ddychmygu y byddai hynny'n cymryd amser, yn enwedig petai'r unigolyn yn gorfod gwylio'r cloc. Efallai fy mod i'n rhy optimistaidd, ond fe hoffwn i feddwl y gallwn barhau i fyw rhyw fath o fywyd cymdeithasol.’

Roedd hyn yn gysylltiedig â rhywun gydag iechyd a lles meddwl ac emosiynol.

Dywedodd ychydig o bobl eu bod yn credu y byddai'n anodd diwallu eu dymuniad i barhau i gymryd rhan mewn chwaraeon. Soniodd pobl eraill am ddod o hyd i waith, cynnal ffordd o fyw digonol, cael mynediad at gymorth mewn ardal wledig, adleoli a thechnegau sy'n ei gwneud yn haws i fyw gydag anabledd.

Dull holiadur Cyngor Sir Ynys Môn

Cafodd yr holiadur a ddosbarthwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn ei lenwi gan 84 o bobl. Roedd y cyflwyniad canlynol i'w weld ar gychwyn yr holiadur:

A oes gennych bryderon ynghylch cynnal eich ffordd o fyw presennol yn y dyfodol?

Rhowch eich hun mewn sefyllfa lle mae rhywbeth wedi mynd o'i le – mater iechyd sydd wedi newid eich bywyd e.e. strôc, neu wedi bod mewn damwain car. Beth am eich ffordd o fyw presennol sydd fwyaf pwysig i chi? Beth sydd fwyaf pwysig i'w gynnal? Beth yw eich prif bryderon? Beth os nad oes gennych chi ddewis a rheolaeth dros eich bywyd bob dydd fel yr oedd gennych ar un adeg?

Casgliadau

Pan ofynnwyd pwy fyddai yn eich cefnogi i gynnal eich annibyniaeth, dywedodd hanner (42 o bobl) mai gweithwyr iechyd neu ofal cymdeithasol oedd y rhai mwyaf tebygol, a dywedodd ychydig o dan hanner (38 o bobl) mai ffrindiau a theulu oedd y rhai mwyaf tebygol. Dywedodd pedwar o bobl y byddai'r gymuned ehangach yn fwy tebygol o'u cefnogi.

Os na fyddai pobl yn gallu gweithio, eu prif bryderon fyddai (yn eu trefn, gyda'r mater sy'n achosi'r mwyaf o bryder yn gyntaf)

1. Cyllid: pryderon ynghylch cynnal eich incwm presennol
2. Gwaith: cynnal eich sefyllfa waith presennol
3. Teithio o amgylch
4. Lles corfforol – cadw'n heini
5. Anogaeth feddylol
6. Teimlo'n ddiogel gartref
7. Dysgu

Serch hynny, nid oedd yna wahaniaethau mawr rhwng y safleoedd (dywedodd 35 o bobl mai cyllid oedd yr achos mwyaf o bryder, dywedodd 18 mai dysgu oedd y peth mwyaf pryderus).

Er mwyn darganfod pa gefnogaeth sydd ar gael, soniodd pobl am fynd i'r cyngor, Bwrdd/Canolfannau Iechyd Lleol, Meddygon Teulu, Canolfan J. O'Toole yng Nghaergybi, llyfrgelloedd, aelodau'r teulu, Canolfan Cyngor ar Bopeth neu Ganolfannau Age Well/Age Cymru Gwynedd a Môn. Dywedodd 18 o bobl y byddent yn chwilio ar-lein gan gynnwys gwefannau'r cyngor a GIG, a dywedodd 10 nad oeddynt yn siŵr neu na fyddent yn gwybod lle i fynd.

Beth fyddai'n eich helpu i newid i ffordd well o fyw?

Dywedodd 24 o bobl yr hoffent gefnogaeth, cyngor, empathi a dealltwriaeth briodol gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol sydd yn hygyrch. Roeddynt hefyd yn dymuno cael cefnogaeth gan ffrindiau a theulu pan roedd hyn ar gael. Byddai cefnogaeth a chynghor yn galluogi pobl i fyw gartref yn annibynnol a byddai'n galluogi'r teulu/ffrindiau i addasu gyda'r unigolyn sydd angen cefnogaeth. Fe soniodd rhai o'r ymatebwyr am yr addasiadau a fyddai angen eu gwneud i'r cartref. Fe hoffai pobl fynediad gwell at gludiant cyhoeddus a mwy o weithgareddau cymdeithasol yn y gymuned.

Roedd cymorth/cyngor ariannol yn faes arall a soniwyd amdanynt yn y sylwadau. Ymysg y mwyafrif o sylwadau roedd hi'n amlwg fod pobl eisiau ac yn fodlon derbyn

cefnogaeth/gofal i gynnal eu hannibyniaeth cyn hired ag y bo'n bosibl. Dywedodd 11 o bobl yr hoffent fwy o wybodaeth/mynediad hawdd at wybodaeth er mwyn iddynt allu gwneud dewisiadau gwybodus.

Roedd sylwadau eraill yn ymwneud â mynediad gwell i gyfleusterau, mynychu clwb WI, clwb gweu a dosbarthiadau ymarfer corff. Rhoi taflenni i fyny mewn meddygfeydd teulu, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, ardaloedd cymunedol am weithgareddau cymdeithasol yn y gymuned. Fe soniodd pobl hefyd am gael mwy o amser hamdden, llwybrau cerdded a beicio diogel ar yr ynys, cymryd rheolaeth dros fywyd, ffordd o fyw sy'n fwy iach drwy ymarfer corff a bwyta'n iach, cyfeillgarwch, rhagor o gymdeithasu gyda ffrindiau a theulu.

Beth ydych chi'n gredu allai atal anghenion gofal a chefnogaeth rhag datblygu?

Dywedodd 24 o bobl bod angen mwy o gyllid ac adnoddau i atal anghenion gofal a chefnogaeth rhag datblygu, dywedodd rhai bod yna ddiffyg dynion sy'n nyrsys a bod angen mwy o gyfathrebu.

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys cadw'n gymdeithasol weithgar, gofal iechyd/gwasanaethau digonol yn y gymuned, bwyta'n iach/diet/cadw'n heini/cadw'r ymennydd yn effro. Mwy o fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol, mae atal yn well na gwella. Cynnal perthnasau gyda ffrindiau a theulu. Gwasanaethau sgrinio gwell o'r feddygfa leol, gweithio mewn partneriaeth yn well ac edrych pa gefnogaeth sydd ar gael gan bartneriaid eraill sy'n arwain at ostyngiad yn y galw am Wasanaethau'r Cyngor. Sicrhau bod gweithwyr iechyd proffesiynol ar gael i atal materion iechyd rhag datblygu yn ddiangen a drwy roi diagnosis ar amser a chynnig cefnogaeth a gofal yn y cartref ar gyfer afiechydon cronig a chynyddol, boed yn gorfforol a meddyliol, ac yn yr amgylchiadau hynny, hwyluso unrhyw ofal cymdeithasol sydd ei angen yn hwyrach mewn bywyd.

Beth os bydd aelod agos o'r teulu angen gofal a chefnogaeth sylweddol?

Mae llawer o bobl yn poeni am orfod lleihau eu horiau gwaith neu hyd yn oed rhoi'r gorau i weithio'n gyfan gwbl petaent yn y sefyllfa yma, fe fyddent yn fodlon darparu gofal a chefnogaeth, ond ddim gofal personol mae'n debyg. Byddai pryderon ariannol yn elfen o hyn hefyd, byddai'r mwyafrif o bobl naill ai'n mynd at feddyg teulu, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd neu'r trydydd sector i gael cefnogaeth. Roedd llawer o bryderon am rieni'n tyfu'n hŷn a sut y byddai pobl yn ymdopi petai'n rhaid iddynt ddarparu rhyw fath o ofal a/neu gefnogaeth i'w rhieni, yr effaith y byddai hyn yn ei gael ar y teulu pan fo gan bobl blant er enghraifft, a'r posibilrwydd o symud tŷ os yw'r rhieni'n byw'n bell i ffwrdd. Byddai grwpiau cefnogaeth i deuluoedd yn fanteisiol. Byddai canolfannau cyngor annibynnol yn helpu pobl i ddeall y gyfraith o ran y system iechyd a budd-daliadau.

'Fe fyddwn i'n darparu gofal a chefnogaeth i fy nheulu agos, ond yn amlwg byddai hyn naill ai yn effeithio ar fy nghydbwysedd bywyd/gwaith ac fe fyddwn i angen cymorth i allu gofalu amdanynt ac efallai na fyddwn ni'n gallu bod yn ofalwr llawn amser oherwydd ymrwymadau eraill h.y. ni allwn i ddarparu gofal llawn amser i riant oeddrannus gan fod gen i gyfrifoldeb am ddau blentyn ifanc a swydd heriol. Mae angen cyfeiriadu gwell at y gwasanaethau presennol sydd ar gael ar yr ynys, a chefnogi a gwella'r adnoddau presennol yn ogystal â gwneud mwy

o wasanaethau ar gael i'r henoed ac i rieni. Petawn i angen cymorth fe fyddwn i'n cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol neu'n defnyddio gwefan Dewis i edrych ar yr adnoddau sydd ar gael, yr anhawster yw bod y rhain yn brin ar yr ynys.

'Gallai'r effaith ar aelodau agos y teulu fod yn sylweddol. Mae'n arbennig bwysig eu bod yn cael cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl (neu'n cael eu cyfeirio at asiantaethau priodol eraill cyn gynted ag sy'n bosibl) er mwyn iddynt wneud penderfyniadau gwybodus am y sefyllfa. Byddai'r lefel o gefnogaeth y gallai rhywun ei ddarparu yn dibynnu ar eu sgiliau a gwybod am anghenion yr unigolyn, a'u hymrwymadau amser oherwydd efallai fod ganddynt swydd lawn amser na allant fforddio rhoi'r gorau iddi er mwyn bod yn ofalwr. Dwi'n meddwl ei bod hi'n bwysig sicrhau bod aelodau'r teulu yn cael cymaint o gefnogaeth ag sy'n bosibl er mwyn iddynt deimlo nad ydynt yn cael eu gorfodi i dderbyn cyfrifoldebau a fyddai'n eu gorlethu ac na fyddent yn gallu ymdopi. Dwi'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol helpu aelodau'r teulu i gysylltu â phobl eraill sydd mewn sefyllfa debyg – grwpiau cefnogaeth ac ati i sicrhau nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu hynysu gan y sefyllfa.'

'Ar ôl treulio 15 mlynedd yn gofalu am aelodau agos o'r teulu gydag afiechydon graddol tuag at ddiwedd eu bywyd, dwi'n gwybod bod 'cyfrifoldebau gofalu' yn effeithio ar yr incwm y gallwch ei ennill; mae'n gwagu eich cynilion a gall effeithio ar eich iechyd eich hun, oherwydd straen a dim amser ar gyfer eich anghenion eich hun. Yn gyffredinol mae angen i bobl ddeall y gyfraith o ran y systemau iechyd a budd-daliadau. Gallai canolfannau Cyngor Annibynnol helpu mwy gyda hyn. Serch hynny, byddai materion ymarferol megis gofalcwyr cartref wedi'u hyfforddi'n well gyda chylch gwaith newydd, gan gynnwys gallu hysbysu gweithwyr iechyd proffesiynol am bryderon, a bod mwy o weithwyr iechyd proffesiynol ar gyfer henoed bregus eu meddwl ar gael ar gyfer ymweliadau cartref rheolaidd, yn helpu i gadw unigolion henoed bregus eu meddwl gartref gyda mwy o annibyniaeth am hirach.'

Unrhyw sylwadau eraill

Roedd sylwadau eraill yn ymdrin ag ystod o faterion, llawer yn benodol i Ynys Môn, o farn am bresgripsiwn am ddim i wasanaethau cludiant lleol.

Pobl ifanc heb anghenion gofal a chefnogaeth

Y prif faterion y soniwyd amdanynt oedd:

- Deall problemau ariannol, benthychiadau myfyrwyr, talu biliau, budd-daliadau a gwybod at bwy i droi i siarad am broblemau ariannol.
- Deall hawliau cyflogaeth.
- Deall sut y bydd dewisiadau, cyfreithiau, deddfau a benthychiadau newydd yn effeithio ar eu lles yn y dyfodol.
- Rhywun i siarad â nhw os bydd rhywbeth yn digwydd a'u bod angen cefnogaeth a chymorth, gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth a chefnogaeth ar eu cyfer nhw a'u teuluoedd. Gwefannau sydd yn hawdd i'w defnyddio i wneud apwyntiadau. Mwy o wybodaeth drwy ysgolion, colegau a chyfryngau cymdeithasol.
- Cludiant i waith, coleg neu i gael gafael ar wasanaethau yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Cost ac argaeledd.
- Cymdeithasau a mynediad i weithgareddau cymdeithasol rhatach.
- Gallai teulu a ffrindiau ddarparu cymorth petaent yn gwybod lle i fynd i gael cymorth ond fe allent wybod llai na ni, neu ddim yn gallu darparu cefnogaeth, yn enwedig cefnogaeth arbenigol. Efallai na fydd rhai eisiau gofyn i fy nheulu neu ffrindiau.

- Gallai pobl sy'n byw yn y gymuned leol helpu gyda chludiant nôl a blaen o'r coleg a gwaith, cadw llygad arnaf i gartref. Helpu i siopa am fwyd. Galw heibio ar hap i wirio arnaf gartref. Gallai cymdogion adael i mi ddefnyddio eu ffôn, rhyngwrwyd i chwilio am gefnogaeth ac i helpu i fynd i siopa. Bod yn gefnogaeth gartref. Petai yna unrhyw grwpiau cefnogaeth yn y gymuned, fe allent ddod gyda mi.
- Gallai elusennau a'r trydydd sector helpu i ddarparu cefnogaeth ariannol, cyngor ar faterion ariannol a chyngor a allai fod yno i fy nghefnogi i a fy rheulu. Fe allent gyfeirio gwasanaethau cefnogaeth sy'n addas ar gyfer pobl fy oedran i a phobl hŷn sydd wedi bod yn yr un sefyllfa. Rhywun i siarad â nhw a chael cymorth. Helpu i ddarparu cymorth deunyddiau os oes angen, a rhywun i siarad â nhw.

Atodiad 1c: Ymgysylltiad staff a darparwyr

Cyflwyniad

Defnyddiodd Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru y dulliau isod i ymgynghori ac ymgysylltu:

- Anfonwyd holiadur at sefydliadau yn gofyn am eu barn ac am unrhyw dystiolaeth a oedd ganddynt megis mesuryddion perfformiad neu adroddiadau ymgynghori.
- Grwpiau trafod gyda defnyddwyr y gwasanaethau. Fe anfonodd rhai siroedd holiaduron hefyd.
- Holiadur ar gyfer y cyhoedd oedd ar gael ar wefan y Panel Dinasyddion ynghyd â chyfweliadau gydag aelodau'r Panel Dinasyddion. Cyflwynodd Ynys Môn holiaduron ychwanegol ar gyfer y cyhoedd hefyd.
- Gweithdai gyda staff a chynghorwyr.
- Adolygiad o ymchwil ac ymgynghoriad perthnasol gan gynnwys deddfwriaeth, strategaethau, cynlluniau comisiynu, asesiadau anghenion ac adroddiadau ymgynghori

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gweithdai gyda staff a'r holiaduron a lenwyd. Mae'r canfyddiadau allweddol i'w gweld yn adran 'beth mae pobl yn ei ddweud wrthym?' pob pennod. Mae rhestr lawn o'r holl wybodaeth a gasglwyd i lywio'r asesiad poblogaeth wedi'i gynnwys fel atodiad i'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb.

Dull y gweithdai staff

Bu i bob sir drefnu gweithdai neu ddosbarthu holiaduron oedd yn gofyn cwestiynau am yr angen am wasanaethau gofal a chymorth yn ardal waith y staff. Cynhaliwyd 22 o weithdai oedd yn cynnwys cannoedd o aelodau staff o'r gwahanol adrannau gwasanaethau cymdeithasol a ddangosir yn nhabl 1 isod. Cafwyd adborth uniongyrchol ar benodau'r asesiad poblogaeth drafft gan nifer o staff ychwanegol. Cafwyd adroddiadau hefyd gan chwe Chyngor Gogledd Cymru a BIPBC, gyda rhai ohonynt yn cynnwys ymgynghoriad staff diweddar. Mae mwy o wybodaeth am y gweithgareddau a gynhaliwyd gan bob cyngor ar gael yn [atodiad 1f](#).

Tabl 1: Sesiynau ymgysylltu staff a darparwyr yr asesiad poblogaeth

Sir	Tîm
Ynys Môn	Y Tîm Maethu
Gwynedd	Digwyddiad Ymgysylltu Darparwyr 07/07/16
	Y Tîm Oedolion (Pobl hŷn a phobl ag anabledd corfforol a nam ar y synhwyrau)
	Y Tîm Anableddau Dysgu
	Yr Adran Cymorth i Blant a Theuluoedd, gan gynnwys Plant ag Anableddau
	Staff y darparwr gwasanaethau anableddau dysgu dydd mewnol
	Staff y darparwr gofal cartref a gofal preswyl mewnol

Sir	Tîm
Conwy	Plant a phobl ifanc
	Pobl hŷn
	Anableddau corfforol a nam ar y synhwyrau
	Pobl ddiamddiffyn
	Lles Cymunedol
Sir y Fflint	Y Tîm Byw yn y Gymuned
	Tîm Iechyd meddwl Byw yn y Gymuned
	Grŵp cymysg 05/09/16
	Grŵp cymysg 23/08/16
	Grŵp cymysg 26/08/16
	Grŵp cymysg 30/08/16
	Staff Cyswllt Cymdeithasol
	Cyfarfod Rheolwyr CSS
	Cynorthwyywyr Cymorth Cymunedol Glannau Dyfrdwy
	Cyfarfod staff dydd 9/08/16
	Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
	Staff gofal sylfaenol iechyd meddwl
Wrecsam	Gwasanaeth cyfleoedd dydd a chyflogaeth: Gwasanaeth integredig – mae gan fwyafrif defnyddwyr y gwasanaeth naill ai anabledd dysgu neu broblemau iechyd meddwl
	Pobl ddiamddiffyn
Cymru Gyfan	Rhwydwaith Darparwyr Plant sy'n derbyn Gofal (LAC)

Canfyddiadau'r ymgysylltiad â staff

Plant a phobl ifanc

Heriau y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu

- Cludiant (gall teithio i wahanol leoedd fod yn broblem fawr i rieni)
- Ynysu
- Rhwystrau ieithyddol/diwylliannol
- Amddifadedd – ariannol, diwylliannol, addysgol
- Gweld canlyniadau mewn ffordd realistig
- Gofynion sy'n gwrthdaro

Rhianta

- Heriau: sgiliau rhianta, 'rhianta gwael' y 3^{ydd} neu'r 4^{ydd} genhedlaeth, magu gwael a diffyg anogaeth
- Angen mwy o arweiniad a chymorth i rieni, er enghraifft, gyda sefydlu trefn ddyddiol
- Mae trais domestig, sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, yn cael effaith ar allu rhywun fel rhiant

Gwybodaeth ac ymyrraeth gynnar

- Gwybodaeth – mae llawer o asiantaethau'n cynnig cymorth, gall fod yn ddryslyd
- Angen buddsoddi mwy mewn addysgu rhieni sut i gael cymorth yn y gymuned
- Angen mwy o adnoddau i fuddsoddi mewn gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar yn y tymor hir. Byddai'n fuddiol cael astudiaethau hydredol i ddangos effaith rhaglenni a gychwynnwyd 10 i 15 mlynedd yn ôl.
- Angen gweithio gyda'r bobl hynny nad ydynt yn bodloni'r trothwy i gael cymorth ar hyn o bryd, a darparu mwy o gymorth i blant o oed iau.
- Mae'r bobl leol yn gwerthfawrogi Canolfan Deulu Llanrwst – angen Canolfannau Teulu mewn ardaloedd eraill
- Maethu Ynys Môn: Mae gormod o blant yn cael eu rhoi mewn gofal ar hyn o bryd, ac mae dirfawr angen mwy o waith ataliol arnom cyn i'r plant hyn gyrraedd y trothwy ar gyfer cynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, yn ogystal â phan maent dan ofal y gwasanaethau cymdeithasol, er mwyn eu hatal rhag mynd i ofal. Y gobaith yw y bydd y gwasanaeth Trothwy Gofal yn gweithio tuag at fynd i'r afael â hyn.
- Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu wedi bod yn wasanaeth da o ran darparu cyngor a gwybodaeth i bobl allai fod wedi disgyn trwy'r bwlch fel arall.

Tai

- Angen tai annibynnol i bobl ifanc (16-18)
- Angen tai i bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd
- Angen tai gweddus i bawb

Addysg

Mae yna anghenion heb eu diwallu o ran addysg a chymorth i blant nad ydynt mewn addysg prif ffrwd neu sydd â phecynnau addysg rhan-amser. Mae angen mwy o gymorth i gyflawnwyr isel neu blant sy'n mynd i'r ysgol ond yn cael trafferth cymysgu neu gyrraedd disgwyliaid.

Cyllid, budd-daliadau a gwaith

- Mae'n anodd cael budd-daliadau i helpu pobl i barhau'n annibynnol neu fyw'n annibynnol. Mae'n fwyfwy anodd cael gafael ar fudd-daliadau, ac mae yna fygythiad o golli arian.
- Mae angen gwell addysg a gwaith i blant ag anghenion ychwanegol.
- Gall fod yn anodd i rieni gael gwaith oherwydd diffyg sgiliau a diffyg hyfforddiant/cyfleoedd i'w datblygu.
- Mae yna ddifffyg uchelgais o ganlyniad i ddifffyg cyfleoedd gwaith. Mae rhan o'r gwaith yn cynnwys ceisio ehangu gorwelion i ddangos i bobl ifanc beth sydd ar gael iddynt.
- Mae tlodi mewn gwaith ar gynnydd.

Cyfryngau Cymdeithasol

Mynegodd sawl aelod staff bryderon am y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngwrdd. Mae hyn yn cynnwys pryderon am oramlygrwydd a'r effaith ar ddatblygiad plant, eu gallu i ymdopi'n emosiynol â'r deunyddiau sydd i'w gweld a phryderon o ran diogelu.

Iechyd meddwl

Nododd nifer o'r staff gynnydd yn anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc, gan gynnwys angen am gymorth o ran camddefnyddio sylweddau. Soniodd rhai am restrau aros hir am wasanaethau CAMHS, ac eraill bod y gwasanaeth ymgynghori CAMHS y gall gofalmwr maeth a gweithwyr cymdeithasol ei ddefnyddio yn gweithio'n dda. Balch fod mwy o fuddsoddiad yn CAMHS.

Diwallu anghenion teuluoedd

Cyfrifoldebau cyfyngedig sydd gan y gwasanaethau cymdeithasol a gallant wrthdaro â'r hyn y mae'r rhieni ei eisiau. Mae diffyg dealltwriaeth o deuluoedd yn y prosesau a theimladau o ofn tuag at y gwasanaethau cymdeithasol. Mae rhai teuluoedd yn anfodlon ymgysylltu. Mae rhai defnyddwyr gwasanaeth eisiau llonydd a does ganddynt mo'r dyheadau a restrir uchod. Dyma sy'n ei gwneud yn anodd ymgysylltu â hwy.

Rhai sy'n Gadael Gofal

Mae'r heriau y mae'r rhai sy'n gadael gofal yn eu hwynebu'n cynnwys llety a chymorth, caledi ariannol gyda newidiadau mewn budd-daliadau tai a Chredyd Cynhwysol ac ymddygiad mentrus.

Cymdeithas newidiol

- Mae'r problemau'n dal i fod yn debyg ond mae ymagwedd/ymwybyddiaeth/agweddau wedi newid o ran y risgiau
- Mae cymunedau'n dirywio er y credir bod cymunedau da'n dal i fodoli mewn ardaloedd gwledig
- Mae disgwyliadau o ran yr hyn y mae pobl ei eisiau/angen yn newid - mwy materol?

Problemau gyda gwasanaethau

- Diffyg gwasanaethau seibiant i bobl iau
- Diffyg eiriolaeth o safon
- Gostyngiad yn y cymorth sydd ar gael, gan gynnwys y cymorth i ofalwyr maeth
- Bwlch yn y pontio rhwng Gwasanaethau Plant ac Oedolion
- Cymorth i Fabwysiadu – cynnydd mewn achosion o fabwysiadu amhriodol yn y lle cyntaf
- Prinder gofal preswyl
- Mae Dechrau'n Deg yn loteri cod post
- Mae'r Lllys ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych bellach yn Llandudno – mae'n daith hir i rai defnyddwyr gwasanaeth, yn enwedig os nad oes ganddynt gefnogaeth deuluol
- Gwahanol weithgareddau ar gael ar yr arfordir i'w gymharu ag ardaloedd gwledig
- Angen amrywiaeth o gefnogaeth
- Angen cyfleoedd hyfforddi amlasiantaeth / gwaith amlasiantaeth
- Y ganolfan gomisiynu – ymagwedd ranbarthol, teimlo bod gwaith y Ganolfan yn dirywio
- Llai o staff mewn mannau fel Barnardo's
- Dim digon o adnoddau i ddarparu cymorth dwys i osgoi gofal
- Mae'r gostyngiad yng ngwasanaethau'r trydydd sector yn cael effaith
- Pryder am gynaliadwyedd gwasanaethau a ariennir gan Teuluoedd yn Gyntaf
- Nid yw'r galw i'w weld yn lleihau oherwydd gwasanaethau newydd. Efallai am y gallai creu gwasanaeth newydd greu galw, neu efallai y byddai'r galw yn cynyddu mwy fyth pe bai'r gwasanaethau hyn ddim ar gael.

Maethu / plant sy'n derbyn gofal

- Mae gan blant sy'n derbyn gofal amrediad eang o anghenion o ran eu hiechyd, addysg, hunaniaeth, datblygiad emosiynol ac ymddygiadol, iechyd meddwl, integreiddiad cymdeithasol ac anghenion diwylliannol ac ieithyddol.
- Twf mewn gofalwyr sy'n aelodau teulu neu'n ffrindiau a phobl gysylltiedig: Mae 20% o Blant sy'n Derbyn Gofal bellach yn byw gyda theulu, felly mae angen datblygu cymorth ar gyfer y grŵp hwn.
- Dim digon o leoliadau arbenigol i fodloni cymhlethdod yr anghenion, sy'n arwain at symud lleoliad yn aml neu leoliadau y tu allan i'r ardal
- Mae ar ofalwyr maeth eisiau deilliannau da i'r plant; cydraddoldeb a theimlo'n rhan o'r tîm; cyllid a chymorth cyson; weithiau'n daer am gefnogaeth/cymorth arbenigol

- Mae'n rhaid i'r tîm maethu geisio llenwi'r bylchau pan nad yw gwasanaethau ar gael, all gael effaith ar ysbryd gweithiwyd a'r tîm gan fod yr adnoddau dan bwysau
- Mae'n anodd recriwtio gofalwyr maeth. Mae'r amgylchedd economaidd yn golygu bod llai o bobl yn fodlon cymryd risg o ran newid gyrfa drwy gymryd y cam i fod yn ofalwr. Golyga hyn y gallai plant orfod symud i leoliadau pellach i ffwrdd allai fethu â diwallu eu hanghenion diwylliannol neu ieithyddol neu olygu na allant aros yn eu hysgolion neu'n agos i'w teuluoedd estynedig. Mae angen mwy o ofalwyr maeth ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed.
- Mae heriau ychwanegol yn wynebu rhieni sy'n mabwysiadu
- Bu cynnydd nodedig yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn hanner cyntaf 2016/17, ac amlygwyd anghenion mwy cymhleth hefyd, er efallai mai'r rheswm am hyn yw bod yna systemau gwell ar gyfer canfod cymhlethdod. Mae'r peryglon/rhwysterau i gyflawni deilliannau cadarnhaol wedi cynyddu gyda chyfyngau cymdeithasol.
- Cyfraith Gyhoeddus – diwallu anghenion y rhieni yn ogystal â'r plentyn/person ifanc, er enghraifft, mae ymlyniad plentyn yn golygu y byddai ei symud yn achosi mwy o straen
- Yr hyn sy'n gweithio'n dda: fforwm gofalwyr maeth (annog rhannu barn yn agored); gofalwyr maeth ymrwymedig yn darparu gofal o safon; swyddi swyddogion recriwtio a gweithio'n rhanbarthol; swyddog rhianta (cyfyngedig o ran gallu)
- Yr hyn nad yw'n gweithio'n dda: Fe allai plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr maeth fod yn methu cael gafael ar rai gwasanaethau trydydd sector gwerthfawr am fod eu hachosion yn agored i'r gwasanaethau plant.
- Mae angen cymorth a hyfforddiant arbenigol i ofalwyr maeth er mwyn eu galluogi i ddiwallu anghenion uchel plant sy'n derbyn gofal er mwyn sicrhau bod y plant yn cael sefydlogrwydd cyn gynted ag y bo modd, ac adnoddau i gefnogi hyn ac i atal lleoliadau rhag methu.
- Pan fyddwn yn asesu gofalwyr maeth, byddwn bob amser yn asesu eu rhwydwaith o gefnogaeth ac mae mwyafrif ein gofalwyr maeth yn dda iawn am gael gafael ar adnoddau o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau. Byddwn hefyd yn defnyddio adnoddau fel tîm, e.e. cynnal diwrnod o hwyl blynyddol
- Mae cael cefnogaeth fel hyfforddiant sgiliau TG a Chymraeg yn heriau ar hyn o bryd i ofalwyr maeth, allai effeithio ar y gwasanaeth y gallwn ei gynniig i blant sy'n derbyn gofal.
- Mae gofalwyr maeth hefyd yn eu helpu eu hunain trwy gynnal eu grŵp elusen / cefnogaeth cymheiriaid eu hunain
- Cynllunio lleoliadau a phontio
- Dylai 'Pan Fydda i'n Barod' gael effaith gadarnhaol a rhoi mwy o ddewis i bobl iau, ond mae'n debygol o gael effaith negyddol ar niferoedd gwelyau gofal maeth.
- "Hyder mewn Gofal" – hyfforddiant i ofalwyr (a gyflwynwyd fesul cam ledled Gogledd Cymru)
- Fframwaith Maethu Cenedlaethol

Adborth gan ddarparwyr

- Rhwystredigaeth y gellir dod o hyd i arian ar gyfer lleoliadau drud mewn argyfwng, ond nad oes arian yn cael ei fuddsoddi mewn cymorth cynharach fyddai'n atal yr argyfwng rhag digwydd. Gallai fod yn fuddiol dadansoddi pryd y gwneir lleoliadau gwael. Mae ymrwymadau polisi i'w gweld i ymyrraeth gynnar ond ni theimlir bod yr ymarfer yn cyd-fynd â'r ymrwymiad hwn. Ar y cyfan, gwelir diffyg cynllunio effeithiol a pharu anghenion plant a phobl ifanc gyda'r adnodd mwyaf priodol.
- A ddylai holl staff y Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn gweithio ar benwythnosau os mai dyma'r adeg y gwelir yr angen mwyaf am y gwasanaeth?
- Gwelir ansawdd gymysg i'r cymorth wrth adael gofal – mae cymorth gwael yn tanseilio'r buddsoddiad a'r cynnydd y mae'r bobl ifanc a'r darparwyr wedi'i wneud. Cafwyd enghreifftiau o'r niwed y gall hyn ei wneud a methiannau yn y systemau sy'n siomi pobl ifanc sy'n gadael gofal. Crybwyllwyd Norfolk fel esiampl dda. Mae'r pontio rhwng gofal preswyl a lleoliadau 'Pan fydda i'n barod' neu allan o'r ddalfa yn arbennig o anodd. Dylai fod yn bosib cynllunio'n well ymhell cyn pen-blwydd person ifanc yn 18 oed. Cafwyd enghraifft o bobl ifanc yn gorfod symud ar ddiwrnod eu pen-blwydd yn 18 oherwydd systemau anhyblyg (AGGCC) pan fyddai symud yn gynt gyda mwy o waith paratoi wedi bod yn well i'r person ifanc ac yn y pen draw wedi cefnogi deiliant a phroses bontio mwy llwyddiannus i bobl ifanc.

Comisiynu

- Roedd y berthynas â chomisiynwyr yn gymysg – teimlir y byddai ystyried darparwyr yn bartneriaid all wneud awgrymiadau gwerthfawr o ran sut i ddiwallu anghenion pobl ifanc orau yn arwain at well deilliannau i'r plentyn neu berson ifanc. Roedd teimlad bod rheolwyr gwasanaeth yn amau bod awgrymiadau darparwyr yn ymwneud â gwneud elw, ac nad ydynt yn sylweddoli eu hymrwymiad tuag at les y plentyn, sy'n creu rhwystr i weithio mewn partneriaeth. Mae'r anghydbwysedd mewn grym hefyd yn gwneud y dull hwn o weithio'n anodd. Ar lefel strategol, mae angen ymgysylltu'n fwy effeithiol â darparwyr yn yr ysbryd o'u hystyried yn rhan o'r ateb.
- Byddai trafod cynlluniau'r 5 i 10 mlynedd nesaf gyda'r darparwyr yn fuddiol o ran cynllunio busnes. Mae nifer o ddigwyddiadau 'cwrdd â'r comisiynydd' yn digwydd yn union cyn i wasanaeth fynd allan i dendr. Ond gyda digon o rybudd, gall darparwyr ddatblygu'r gwasanaethau sydd eu hangen i fodloni angen yn y dyfodol a byddai o fudd eu gweld fel rhan o'r ateb tymor hwy.
- Rhywfaint o bryder bod y comisiynwyr yn canolbwyntio ar fantoli'r cyfrifon ar y diwrnod yn hytrach na'r deilliannau ar gyfer y plentyn a chanlyniadau tymor hwy lleoliad. Ond mae yna enghreifftiau o arfer da o gwmpas (roedd Bolton yn un enghraifft).

Beth fyddai'n helpu

- Teimlwyd bod y materion uchod wedi aros yr un fath ers peth amser, er bod gwelliant bellach o ran gorfodi systemau i weithio a rhoi adborth i Weithwyr Cymdeithasol. Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol (IROs) wedi helpu, yn ogystal â'r Comisiynydd Plant ac ymgysylltu ag ASau ac ACau. Fodd bynnag, roedd rhai'n rhwystredig bod angen iddynt fynd at y lefel honno mewn perthynas â materion sydd ddim ond yn ymwneud â chyrraedd y canlyniad gorau posib i'r bobl ifanc, a nododd eraill bod y Comisiynydd Plant mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn.

Pobl hŷn

Beth y mae ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethu ei eisiau

Aros yn eu cartrefi, parhau i fod yn annibynnol a byw bywyd iach, gweithgar a chymdeithasol.

Heriau sy'n wynebu pobl hŷn

- Dim cymorth ar wahân i staff cymorth i ddelio â phrofedigaeth.
- Dim gwasanaethau gofal dros nos / ymatebwyr Teleofal i'r rheiny heb deuluoedd.
- Glanhau
- Diffyg byw â chymorth
- Cymorth cymdeithasol ac emosiynol / sgiliau byw

Gofal mewn ysbytai

- Rhestrau aros hir am ymweliadau â'r ysbyty, ymgynghoriadau
- Gall pobl hŷn fod angen cymorth gydag apwyntiadau ysbyty
- Cyfathrebu ac adborth gan nyrsys ardal a meddygon
- Diffyg cymorth yn yr ysbyty
- Anodd cael 'gofal' ar ôl gadael yr ysbyty. Pwysau i ryddhau pobl o'r ysbyty
- Diffyg cefnogaeth i ofalwyr

Sut mae'r anghenion wedi newid

- Anghenion iechyd a gofal cymdeithasol mwy cymhleth, disgwyliadau uwch. Mwy o angen am gynhwysiant digidol, newidiadau yn agweddau a disgwyliadau'r boblogaeth. Y boblogaeth yn newid, er enghraifft, poblogaethau mewnffudo newydd.

Cludiant

- Mae cludiant yn rhwystr mawr - gan gynnwys y gost a llwybrau teithio cyfyngedig neu ddim llwybrau teithio o gwbl mewn ardaloedd gwledig.
- Atal tocynnau bys

Iechyd meddwl

- Her - Iechyd Meddwl Oedolion
- Lefelau cynyddol o anghenion gofal henoed bregus eu meddwl (EMI)

- Angen mwy o ofal i'r henoed bregus eu meddwl yn y gymuned.

Atal ac ymyrryd yn gynnar

- Disgwyliadau uwch o ran gwasanaethau ataliol.

Heriau sy'n wynebu'r gwasanaethau

- Amser teithio a chost hyn ar gyfer gofal cartref.
- Gwahaniaeth mewn darpariaeth rhwng gwasanaethau, er enghraifft, pobl hŷn o'u cymharu ag Anabledd.

Materion sy'n unigryw i'r ardal

Amlygodd staff o Ynys Môn y materion sy'n wynebu cymunedau gwledig, lefelau uchel o dwristiaeth a symudiad pobl sy'n mudo i'r ardal, yn enwedig yn yr ardaloedd arfordirol.

Recriwtio a chadw staff gofal

- Mae angen ail-frandio'r rôl
- Cystadlu gyda manwerthu, twristiaeth ac ati.
- Dylai'r broses recriwtio gael ei symleiddio a dylid hysbysebu swyddi mewn mannau eraill (nid dim ond ar lein)
- Dylai'r tâl adlewyrchu cymhlethdod a gwerth y gwaith
- Defnyddio'r un bandiau ag lechyd - mae swyddi tebyg o fewn y maes lechyd ar fandiau tâl uwch, felly mae staff yn symud yno
- Darparu gofal yn newis y defnyddiwr o iaith – sgiliau Cymraeg o fewn y gweithlu
- Llwybr gyrfa

Cymorth i fyw gartref - crynodeb

Mae pob sefydliad yn y sector cyhoeddus (p'un ai'n statudol, yn breifat neu'n elusennol) yn wynebu heriau ariannol allai effeithio ar eu gallu i gynnig gwasanaethau hyblyg; ond gall cael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth da mewn pryd helpu pobl i ddatblygu ar eu hasedau eu hunain (yn ariannol, yn gymdeithasol ac yn gorfforol) a gwneud y mwyaf o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd yn eu cymunedau. Mae'r ymagwedd hon yn osgoi neu'n lleihau galw diangen ar wasanaethau ac yn hybu annibyniaeth pobl. Deall beth sy'n bwysig i bobl a'u galluogi i gyflawni hynny fydd un o rolau allweddol gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Mae defnyddio a datblygu cryfderau a pherthnasau pobl yn lleihau beichiau diangen ar wasanaethau a ariennir gan y wladwriaeth, p'un ai yw hynny gan y GIG neu'r Cynghorau.

Cartrefi Gofal

Roedd sawl sefydliad yn bryderus am y diffyg dewis a'r prinder cyffredinol o lety addas ar gyfer pobl hŷn, boed hynny'n gartrefi gofal, tai gofal ychwanegol neu'n llety hygrych cydberchnogaeth.

Mae diffyg llety amgen gyda chymorth yn golygu bod mwy o bobl yn debygol o orfod symud i gartrefi gofal yn eu blynyddoedd diweddar, pan fo'u hiechyd ar ei waelaf, ac mae'r gostyngiad yn niferoedd y cartrefi gofal / cartrefi preswyl yn bryder i bobl Gogledd Cymru, yn yr un modd â recriwtio a newid staff gofal.

Mae'r cartrefi gofal eu hunain yn adrodd iddynt gael trafferth helpu pobl i fod yn rhan o'r gymuned ehangach, cynnwys preswylwyr yn fwy wrth wneud penderfyniadau a gwella symudedd / ymarfer corff y preswylwyr.

Iechyd, anableddau corfforol a nam ar y synhwyrâu

Y deilliannau neu'r canlyniadau y mae rhieni plant anabl eisiau eu cyrraedd

- Cymorth gyda phroblemau cysgu, ymddygiad a defnyddio'r toiled
- Canfod ffordd o ymateb i'r hyn y mae'r rhieni a'r plant ei eisiau
- Cyfleoedd hamdden
- Offer
- Cymorth gydag addysg (roedd ar rai rhieni eisiau addysg prif ffrwd ac eraill eisiau addysg arbenigol)
- Asesiad y gellir ei gynnal ar y cyd ag iechyd
- Paratoi i ddatblygu tuag at annibyniaeth, gwaith a gweithgareddau ag iddynt ddiben – oed pontio
- Diogelwch y plant
- Cymorth gyda budd-daliadau / grantiau
- Cyfeirio at sefydliadau eraill
- Cymorth ychwanegol gyda materion nad ydynt bob amser yn ganlyniad i'r anabledd / cyflwr
- Seibiant / seibiant byr
- Diagnosis
- Iechyd rhywiol (ffiniau, diogelwch ac ati)
- Byw bywyd llawn yn y gymuned / gymdeithas. Integreiddiad cymdeithasol: cael ffrindiau, cymdeithasu, bod â'u cartref eu hunain.
- Cael gafael ar wasanaethau - hamdden ac iechyd

Newidiadau mewn anghenion cymorth

- Mwy o deuluoedd un rhiant a'r pwysau sy'n dod yn sgil hyn
- Angen cyrsiau rhianta
- Dim cymaint o gefnogaeth gan y teulu estynedig (o ganlyniad i bobl yn symud i'r sir heb deulu yn yr ardal, neu blant yn symud i ffwrdd o'r ardaloedd); mae mwy o deuluoedd yn gweithio yn hytrach nag aros gartref i ofalu am blant; nid yw pobl yn fodlon rhoi'r gefnogaeth gan eu bod yn disgwyl i'r Gwasanaethau Cymdeithasol gymryd y rôl honno.
- Problemau cymdeithasol
- Mae llai o blant gyda nam ar y synhwyrâu (byddar/dall) i'w gweld yn dod i'r gwasanaeth

- Disgwyliadau teuluoedd yn newid o ran y gwasanaethau. Mae pobl yn fwy ymwybodol o'u hawliau ac yn fodlon herio gwasanaethau
- Nid yw lefel y gwasanaeth a ddarperir bob amser yn cyd-fynd ag anghenion y plentyn
- Cynnydd mewn disgwyliad oes i blant gyda lefel uchel o anghenion sydd angen llawer o gymorth meddygol Mae plant gyda chyflyrau difrifol yn symud ymlaen i wasanaethau oedolion. Nid yw gwell deilliannau iechyd o reidrwydd yn arwain at well deilliannau cymdeithasol. Mae'r anghenion yn llawer mwy cymhleth nawr nag oeddent 15 mlynedd yn ôl oherwydd gwelliannau yn y byd meddygol.

Anghenion heb eu diwallu

- Gall plant ar y sbectrwm awtistiaeth sydd heb anabledd dysgu nag angen iechyd meddwl ddisgyn trwy'r rhwyd
- Plant sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y gwasanaethau plant ond nid y gwasanaethau oedolion
- Darpariaeth seicolegydd (rhestr aros faith)
- Cyfleoedd hamdden i blant anabl y tu allan i'r gwasanaethau plant
- Cludiant addas i blant a phobl ifanc sy'n defnyddio cadair olwyn
- Clinigau / ysbytai sy'n addas ar gyfer plant ag anghenion corfforol
- Gwasanaethau y gellir cael gafael arnynt mewn ardaloedd gwledig
- Ymweliadau â'r cartref
- Gweithwyr Allweddol Pontio
- Gofal seibiant, yn arbennig ar gyfer unigolion ag anghenion mwy cymhleth neu ymddygiad heriol
- Tai i deuluoedd â phlant anabl – mae'r dreth ystafell wely wedi achosi problemau
- Materion yn y gweithlu. Recriwtio staff – anodd oherwydd gwaith 24 awr, lefel uchel o gyfrifoldeb ond dim llwybr gyrfa, cyflog (cyflog gwell i'w gael yn Tesco), dim arian i'w fuddsoddi yn y gweithlu, staff yn gorfod symud i ddatblygu eu gyrfa. Gweithlu sy'n heneiddio. Ysgolion yn cwtogi ar gynorthwywyr ysgol hyfforddedig.
- Lleoliadau mewn ysgolion i bobl ifanc â phroblemau dysgu a diffyg dealltwriaeth mewn ysgolion prif ffrwd.
- Gwasanaethau wedi'u hystyngtu yn ddifrifol – mwy o alw a llai o staff
- Diffyg cyfleoedd cymdeithasol i blant dan 5, gweithgareddau yn ystod gwyliau'r haf, darpariaeth mewn ardaloedd gwledig
- Nid yw cysylltiad digidol rhwydweithiau, e.e. teleofal, yn gweithio heb linell dir ac mae mwyfwy o bobl yn defnyddio ffonau symudol yn lle llinellau tir y dyddiau yma; problemau o ran gweithio ar eich pen eich hun. Cyfran fechan yn unig o'r dechnoleg sydd ar gael y mae'r cyngor yn ei chynnig.

Anableddau Dysgu

Newidiadau yn yr anghenion am gymorth

- Problemau cymdeithasol
- Mae problemau alcohol a chyffuriau yn fwy amlwg
- Cynnydd yn nifer y gofalwyr hŷn. Pryderon am ofalwyr hŷn sy'n amharod i adael i'w plant adael cartref. Angen cynllunio ar gyfer y dyfodol, er enghraifft, os bydd gofalwr yn mynd yn sâl. Diffyg dealltwriaeth ar ran gofalwyr/rhieni am yr hyn fydd yn digwydd ar ôl iddynt hwy farw.
- Cynnydd yn y niferoedd ag anghenion dwys – corfforol / ymddygiadol.
- Nifer gynyddol o oedolion diamddiffyn – pobl ifanc ag anableddau dysgu, sydd o bosib yn gadael gofal maeth neu uned i bobl ifanc â phroblemau ymddygiad, sydd ddim yn perthyn i unman / bodloni meini prawf y gwasanaethau sydd ar gael. Mae ganddynt fywydau anhrefnus yn aml a phroblemau gydag alcohol / cyffuriau, ac mae arnynt angen cymorth gyda thai, talu biliau a sgiliau byw bob dydd. Nid yw lechyd yn asesu eu hanghenion tan 3 mis cyn iddynt droi'n 18 oed.
- Mae pobl yn byw'n hirach ac mae cynnydd mewn cyflyrau cysylltiedig, fel dementia neu strôc. Hefyd, mae pobl â Syndrom Down yn fwy tebygol o ddatblygu dementia.
- Mae disgwyliadau pobl wedi newid o ran yr angen am fwy o gyfleoedd dydd / gwaith yn hytrach na mynd i ganolfan ddydd 'draddodiadol'. Mae ar bobl ifanc angen cyfleoedd ar ôl gadael y coleg.
- Mwy o alw am welyau nyrsio i'r henoed bregus eu meddwl (EMI - a elwir hefyd yn bobl hŷn â phroblemau iechyd meddwl).
- Gwasanaethau'n cael eu seilio fwyfwy ar ddeilliannau. Pryderon am leihau gwasanaethau ataliol oherwydd toriadau yn y gyllideb a gallu trydydd sector sy'n lleihau i ddiwallu anghenion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) newydd.

Anghenion heb eu diwallu

- Diffyg gwelyau seibiant mewn argyfwng.
- Diffyg gwasanaethau priodol yn y gymuned.
- Ardaloedd gwledig yn cael trafferth cael gafael ar gymorth
- Hygyrchedd Adnoddau/Opsiynau ar gyfer gwasanaethau
- Mwy o godi ymwybyddiaeth a hyfforddiant mewn perthynas â phobl ag anableddau dysgu.
- Dementia cynnar – mae diffyg adnoddau llwyr yng Ngogledd Cymru sy'n arwain at oedolion iau yn gorfod mynd i gartrefi gofal.
- Mae Cludiant/Cyllid/Cymorth oll yn faterion allweddol sy'n parhau i godi.
- Mae nifer o bobl anabl yn disgyn i 'drap budd-daliadau' - os ydynt yn ceisio dod yn fwy annibynnol trwy weithio am ychydig oriau, gallant golli budd-daliadau hanfodol.
- Gweithio gydag adnoddau cyfyngedig
- Dehongliad o les – mae'n wahanol i bawb felly mae'n anodd asesu a sefydlu'r deilliannau gwirioneddol a sut y gall y rhain newid a chynyddu dros amser wrth heneiddio ac ati.

- Nid yw llawer o bobl yr ydym yn gweithio â hwy yn deall ethos ac egwyddorion y ddeddf, a phan fyddwch yn asesu eu cryfderau a'u rhwydweithiau, gellir gweld hyn yn rhywbeth negyddol ac yn ffordd o beidio â darparu gwasanaethau neu osgoi gwneud hynny. Gall hefyd arwain at ymddygiad anodd wrth ail-alluogi.
- Gall fod yn anodd cael y cydbwysedd cywir rhwng gweithio i ail-alluogi rhywun trwy hybu annibyniaeth a darparu ar gyfer gofal a lles y person. Mae angen hyfforddiant a goruchwyliaeth i ddatblygu'r sgiliau penodol sydd eu hangen i weithio fel hyn
- Weithiau, mae pobl yn disgyn rhwng dau faes gwasanaeth.
- Amlygu a Stigma
- Addysgu am yr hyn sydd ar gael yn y gymuned a sut i gyfeirio
- Cludiant
- Tai priodol digonol
- Diffyg cyswllt â'r gwasanaethau iechyd i gefnogi pobl ag anghenion iechyd yn y gymuned.
- Cefnogi gofal yn ystod y nos
- Gwahaniaeth rhwng gwasanaethau
- Gall fod yn anodd ymateb i ddewis pobl o iaith
- Disgwyliadau realistig y cyhoedd o ran pa wasanaethau y gellir eu darparu gan yr awdurdodau lleol a'r trydydd sector.
- Nodau/Deilliannau realistig ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau; mae cyfeiriad brwd tuag at annibyniaeth ac ailalluogi, ond rhaid i'r rhain fod yn realistig a chynrychioli'r hyn y gall y person ei gyflawni mewn gwirionedd.
- Cyfeillio i leihau arwahanrwydd cymdeithasol
- Gwasanaethau ataliol
- Unigolion sydd eisiau prynu eu gwasanaeth/offer eu hunain, ond mae ar gyrff a mudiadau gwirfoddol angen Asesiadau Therapi Galwedigaethol.
- Gwybodaeth am wasanaethau lleol all ddarparu cyngor a chymorth.
- Mae angen tynnu sylw at broses atgyfeirio'r Gwasanaethau Cymdeithasol fel bod pob gweithiwr proffesiynol yn gwybod sut i atgyfeirio ac i ble.
- Mwy o hyfforddiant i staff ar y sgiliau sydd eu hangen i adlewyrchu ethos y Ddeddf newydd. Mae nifer o'r aelodau staff yn deall beth mae'r ddeddf yn ceisio ei gyflawni, ond mae angen hyfforddiant ar y camau ymarferol i'w cymryd a sut i wneud y pethau hyn mewn rôl benodol.
- Mae angen gwneud mwy i sicrhau dull integredig o ddiwallu anghenion cymunedol o ran asesu'r boblogaeth.
- Mae mwyfwy o alw am Wasanaethau Anabledd Dysgu, ac wrth i bobl iau gyrraedd byd oedolion, ymddengys bod llai o leoedd ar gael ar wasanaethau sy'n hybu byw'n annibynnol ac ati, oherwydd y cynnydd hwn yn y galw.
- Defnyddio gwelyau camu i fyny a chamu i lawr – canolbwyntio fwy ar gynyddu annibyniaeth.
- Mae Caffis Dementia yn syniad da a dylent fod ar gael ym mhob tref.

- Mae eisiau helpu pobl ag anghenion cymhleth sy'n cael eu lleoli y tu allan i'w sir i symud yn ôl.
- Materion yn y gweithlu. Recriwtio staff – anodd oherwydd gwaith 24 awr, lefel uchel o gyfrifoldeb ond dim llwybr gyrfa, cyflog (cyflog gwell i'w gael yn Tesco), dim arian i'w fuddsoddi yn y gweithlu, staff yn gorfod symud i ddatblygu eu gyrfa. Gweithlu sy'n heneiddio. Ysgolion yn cwtogi ar gynorthwyywyr ysgol hyfforddedig.

Iechyd meddwl

Canfu tystiolaeth o'r ymgynghoriad fod pobl yn aml yn cyflwyno i wasanaethau eraill ag anghenion iechyd meddwl a bod angen gwell dealltwriaeth o sut i gefnogi person sy'n cyflwyno ag anghenion amryfal.

Er enghraifft, nododd cymdeithasau tai eu bod yn canfod pobl sydd angen cefnogaeth o ran iechyd meddwl ond nad ydynt yn gwybod ble i fynd i gael cymorth. Maent yn gweld eu bod yn cael eu pasio rhwng Meddygon Teulu, gwasanaethau eraill y bwrdd iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau'r trydydd sector. Nododd ymatebwyr y byddai'n fuddiol cael mwy o wybodaeth a chynghor am sut i gefnogi pobl neu lle i gyfeirio pobl. Er enghraifft, ceisio cefnogi rhywun gyda materion rheoli arian a dyled sydd hefyd yn dioddef o iselder.

Un angen mawr a amlygwyd yw cefnogaeth i oedolion ag awtistiaeth sydd heb anableddau dysgu ac y gellid eu proffilio fel bod â syndrom Asperger neu awtistiaeth gweithredu lefel uwch. Gall asesu unigolyn fod yn broses faith. Nododd rhai bod pobl yn cael eu pasio rhwng gwasanaethau anableddau dysgu a gwasanaethau iechyd meddwl/pobl ddiamddiffyn.

Dyma anghenion eraill a amlygwyd:

- Cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Cefnogi Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol
- Niferoedd cynyddol o atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Cefnogi Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol oherwydd straen a phwysau cymdeithasol yn hytrach na phroblemau iechyd meddwl; mae'r rhain yn anoddach i'w cefnogi ac nid yw meddyginiaeth yn ateb i'r broblem. Mae trais domestig a gwrthdaro mewn perthynas yn enghreifftiau o hyn.
- Cynnydd mewn achosion mwy cymhleth ac mae'r trothwy i gael cymorth wedi codi dros y blynyddoedd
- Pontio rhwng gwasanaethau iechyd meddwl plant ac oedolion
- Cymorth sy'n canolbwyntio ar adfer
- Cludiant a chael gafael ar gyfleusterau cymunedol.
- Rhestrau aros i gael cymorth seicolegol yn rhy hir.
- Amlygwyd hefyd yr angen am gefnogaeth cyn diagnosis.

Dyma awgrymiadau am sut i wella gwasanaethau:

- Strategaeth drosfwaol gyda gwell cydlyniad rhwng tai, budd-daliadau, addysg ac ati. Rhoddodd un grŵp enghraifft o deulu'n cydweithio â thri gwahanol dîm o fewn adran gwasanaethau cymdeithasol y cyngor lleol.
- Mwy o allu o fewn timau iechyd meddwl.
- Ystyried modelau sy'n cynnwys teulu a chyfeillion, megis Atgyfnerthu Cymunedau a Hyfforddi Teuluoedd (CRAFT) a Therapi Rhwydwaith ac Ymddygiad Cymdeithasol (SBNT).
- Darparu gwasanaethau y tu hwnt i oriau 9 tan 5.
- Gwneud gwell defnydd o Dewis Cymru i rannu gwybodaeth am wasanaethau'r trydydd sector.
- Mae angen i wasanaethau iechyd a phartneriaid tai gydweithio i sicrhau'r deilliannau gorau i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau ac i ddylanwadu ar gynllunio strategol llety yn y dyfodol, yn dai â chymorth ac yn anghenion cyffredinol yn y gymuned.

Y Gymraeg

Amlygodd yr ymgynghoriad a'r ymgysylltiad bryderon nad oes yna ddigon o seiciatryddion a seicolegwyr sy'n siarad Cymraeg i ddarparu gwasanaeth sy'n bodloni anghenion siaradwyr Cymraeg Gogledd Cymru. Gallai hyn effeithio ar allu pobl i gael diagnosis cywir yn ogystal â chael gafael ar wasanaethau fel cwnsela.

Gofalwyr

Gweler yr adrannau eraill am farn y staff ar anghenion gofalwyr.

Trais yn erbyn merched, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol.

Angen mwy o gefnogaeth ar gyfer trais domestig a gwrthdaro mewn perthynas; mae hyn yn bwysig iawn. Amlygodd ymgynghoriad â'r staff sy'n cydweithio â theuluoedd bod trais domestig a theuluoedd yn chwalu yn heriau sy'n wynebu'r teuluoedd y maent yn cydweithio â hwy. Mae angen gwasanaethau sy'n cefnogi teuluoedd dioddefwyr camdriniaeth rywiol (gwasanaethau ar gyfer y dioddefwr/cyflawnwr a geir gam amlaf)

Mannau Diogel

Gweler holiaduron y sefydliadau am adborth.

Atodiad 1d: Adroddiad ar yr arolwg o sefydliadau

Cyflwyniad

Fe wnaeth y broses o ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer asesiad poblogaeth Gogledd Cymru ddefnyddio'r dulliau isod:

- Holiadur ar gyfer sefydliadau a oedd yn gofyn am eu barn ac am unrhyw dystiolaeth oedd ganddynt megis mesurau perfformiad neu adroddiadau ymgynghori.
- Grwpiau trafod gyda defnyddwyr gwasanaethau. Anfonodd rhai siroedd holiaduron hefyd.
- Holiadur ar gyfer y cyhoedd a oedd ar gael ar wefan y Panel Dinasyddion ynghyd â chyfweiliadau ag aelodau'r Panel Dinasyddion. Cyhoeddodd Ynys Môn holiaduron ychwanegol ar gyfer y cyhoedd hefyd.
- Gweithdai gyda staff a chynghorwyr.
- Adolygiad o waith ymchwil ac ymgynghori perthnasol gan gynnwys deddfwriaeth, strategaethau, cynlluniau comisiynu, asesiadau o anghenion ac adroddiadau ymgynghori

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o'r holiadur a ddosbarthwyd i sefydliadau. Mae adroddiadau eraill ar gael a'r rheiny'n crynhoi'r canfyddiadau o ddulliau eraill. Mae'r canfyddiadau allweddol wedi'u cynnwys yn yr adran 'beth mae pobl yn ei ddweud wrthym?' o bob pennod hefyd. Mae rhestr lawn o'r holl wybodaeth a gasglwyd ar gyfer yr asesiad poblogaeth wedi'i chynnwys fel atodiad wrth yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldebau.

Dull

Cafodd yr holiadur ei gylchredeg yn eang trwy'r e-bost trwy'r cynghorau gwirfoddol sirol ym mhob un o'r chwe sir yng Ngogledd Cymru ac i amryw rwydweithiau eraill. Fe wnaeth y cynghorau lleol a'r bwrdd iechyd hyrwyddo holiadur ar-lein Panel Dinasyddion Gogledd Cymru trwy eu gwefannau, eu tudalennau Facebook a'u cyfrifon Twitter. Fe anfonodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrexham ddatganiad i'r wasg at bapur newydd y Leader, Wrexham.com, y Daily Post, BBC Cymru Wales, Capital Radio a Heart Radio hefyd. I gael rhagor o wybodaeth am y modd y gwnaeth pob cyngor lleol a'r gwasanaethau iechyd hyrwyddo'r arolwg gweler [Appendix 1f](#).

Ar y cyfan roedd 134 o ymatebion i'r arolwg a cheir rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Mae'r tabl isod yn dangos yn fras faint o sefydliadau a ymatebodd dan bob thema – darparodd rhai sefydliadau ymatebion a ddefnyddiwyd i oleuo mwy nag un thema felly maent wedi cael eu cynnwys fwy nag unwaith a darparodd rhai sefydliadau fwy nag un ymateb. Darparodd sefydliadau dystiolaeth ar gyfer eu sylwadau hefyd megis adroddiadau ymgynghori sydd wedi cael eu hadolygu fel rhan o'r asesiad poblogaeth.

Tabl 1: Nifer yr ymatebion i'r holiadur yn ôl thema

Thema	Ymatebion gan sefydliadau
Pobl hŷn	33
Plant a phobl ifanc	28
Iechyd, anableddau corfforol a nam ar y synhwyrau	25
Anabledd dysgu ac awtistiaeth	12
Gofalwyr	11
Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol	11
Iechyd meddwl	10
Camddefnyddio sylweddau	9
Pobl â nodweddion gwarchodedig	8
Digartrefedd	3
Sefydliadau diogel	2
Cyn-filwyr	6

Sylwer: Mae rhai sefydliadau'n perthyn dan fwy nag un thema felly maent wedi cael eu cyfrif fwy nag unwaith a darparodd rhai sefydliadau fwy nag un ymateb.

Canfyddiadau yn ôl thema

Plant a phobl ifanc

Soniodd llawer o wahanol sefydliadau am broblemau gyda mynediad at wasanaethau y tu allan i'r tymor ysgol. Mae sefydliadau hefyd yn ei chael yn anodd dod o hyd i adeiladau eraill addas y tu allan i'r tymor ysgol.

Mae'n bwysig bod lleisiau plant sy'n derbyn gofal a phlant ar y gofrestr amddiffyn plant yn gallu cael eu clywed mewn prosesau penderfynu. Mae'r her o fod yn blentyn sy'n derbyn gofal yn aml yn effeithio ar iechyd personol, perthnasoedd personol a chyrhaeddiad addysgol.

Mae sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cymorth eirioli pan fo cynllun gofal a chymorth yn dechrau'n gallu helpu i leihau'r angen yn ddiweddarach a gall hefyd helpu plant a phobl ifanc i fod â dealltwriaeth well am y broses y maent yn ei phrofi.

Ymddengys fod cynnydd mewn anghenion ar gyfer pobl ifanc 11 – 16 oed ac mae sefydliadau'n dweud bod mwy o achosion o hunan-niweidio, iselder, materion dicter a materion iechyd meddwl yn y grŵp oedran hwn.

Siroedd gwledig yng Ngogledd Cymru yw Gwynedd ac Ynys Môn, ac i blant a phobl ifanc ceir cyfyngiadau o ran mynediad at leoliadau adloniant mawr. Mae llai o wasanaethau ac maent yn tueddu i gostio mwy oherwydd y pellter y mae angen

teithio i ac o'r ardaloedd hyn. Dywedodd Urdd Gobaith Cymru nad yw'r fforymau sirol a chymorth iaith Gymraeg yn gweithio cystal i bobl ifanc 16 – 18 oed.

Dywedodd gwasanaethau profedigaeth Cruse fod y broses atgyfeirio, yn enwedig o wasanaethau iechyd, yn wael.

Mae angen mynediad at gyfleoedd chwarae priodol a hygyrch ar gyfer plant sy'n fyddar ac yn ddall gyda'r pwyslais ar ddarpariaeth leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru.

Sipsiwn a Theithwyr Ifainc

Ar ôl addysg gynradd, yn enwedig i Sipsiwn a Theithwyr gwrywaidd ifainc, nid yw ysgolion prif-ffrwd yn eu cynorthwyo'n ddigonol wrth gamu ymlaen i addysg uwchradd. Maent yn ei chael yn anodd ymgysylltu ac integreiddio â chymuned yr ysgol gyfan ac ychydig o ddarpariaeth os o gwbl sydd ar gael iddynt ar ffurf ystafell ddosbarth ychwanegol neu amgylchedd dysgu amgen. Mae hyn wedyn yn arwain at ymddygiad sy'n tarfu ac ymddieithrio ac yn y pen draw at gael eu gwahardd.

Llythrennedd – mae llawer o bobl ifanc yn gadael yr ysgol gyda'r hanfodion yn unig o ran gallu darllen ac ysgrifennu. Mae hyn wedyn yn peri iddynt fod heb lawer o hyder na gallu o gwbl i lenwi ffurflenni er enghraifft ar gyfer budd-daliadau, iechyd a thai.

Safleoedd dros dro – nid oes safleoedd dros dro i aelodau o'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr aros arnynt wrth ymweld â theuluoedd. Mae hyn yn achosi problemau mewn cymunedau lleol pan fo teuluoedd Teithwyr yn aros ar safleoedd diawdurdod heb unrhyw gyfleusterau (biniau, toiledau ac ati).

Diffyg safleoedd parhaol ar gyfer Teithwyr – mae oedi cyn rhoi caniatâd cynllunio'n golygu bod teuluoedd yn cael eu gorfodi i aros yn anghyfreithlon sy'n arwain at stereoteipio negyddol mewn cymunedau lleol.

Mae'r ffaith nad oes digon o le ar safleoedd Teithwyr presennol yn gallu golygu bod safleoedd yn orlawn ac yn anniogel pan geir achlysuron teuluol megis angladdau a phriodasau a phan fo teuluoedd estynedig â threlars yn dod i aros.

Mae gan oedolion o fewn y gymuned anghenion go iawn o ran cymorth lle mae llythrennedd yn y cwestiwn. Nid yw'n beth anghyffredin i weithwyr o'r Gwasanaeth Addysg Teithwyr gael ceisiadau i gwblhau ffurflenni ar gyfer budd-daliadau ac yn y blaen, ar ran teulu gan nad yw'r rhieni'n gallu gwneud hynny.

Yn aml anfonir gohebiaeth at deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr ac nid yw'n ddealladwy bod y derbynnydd yn methu â darllen yr wybodaeth/ffurflenni amgaeedig.

Mae'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn teimlo'n gryf nad ydynt yn cael eu derbyn a'u bod yn cael eu trin yn annheg yn y cymunedau lle maent yn byw.

Maent yn hysbysu'n rheolaidd am weithredoedd cam-drin a Throseddau Casineb yn erbyn Sipsiwn a Theithwyr ac yn teimlo nad yw eu materion a'u pryderon yn cael eu cymryd yn gymaint o ddifrif ac yn gyfartal â rhai pobl eraill yn y gymuned leol ac yn y gymdeithas ehangach.

Ceir materion sy'n ymwneud ag iechyd hefyd.

Pobl hŷn

Mae rhai sefydliadau yn y trydydd sector yn cael anhawster gyda niferoedd cleientiaid yn gostwng. Mae angen cysylltiadau gwell â staff y bwrdd iechyd a chynghorau i gyfeirio pobl at eu gwasanaethau a'u hyrwyddo. Gall fod yn anodd adnabod pobl sydd wedi'u hynysu, felly mae angen i'r sector cyhoeddus gydweithio i atgyfeirio at ei gilydd.

Yn y cartref ac mewn lleoliad gofal fel ei gilydd, ceir her o ran sut i gefnogi pobl ar yr adeg y mae arnynt ei eisiau ac mor aml ag y mae arnynt ei eisiau. Fel arfer, diffyg cyllid yw'r broblem.

Mae rhyddhau pobl o'r ysbyty'n gyflymach gyda'r ôl-ofal cywir yn bwysig iawn. Un o'r prif broblemau y mae pobl yn eu hwynebu yw ofn mynd i'r ysbyty, felly mae angen cymorth os oes rhaid i hyn ddigwydd.

Yn aml mae pobl hŷn sy'n cael cymorth yn eu cartref eu hunain yn teimlo'n unig ac felly'n agored i niwed. Maent yn hoffi meithrin perthnasoedd â phobl sy'n eu cefnogi ac nid ydynt yn hoffi pan fo llawer o wahanol bobl yn mynd drwy eu cartref. Yn aml mae ganddynt deuluoedd sy'n gweithio, plant bach i ofalu amdanynt neu maent yn byw mewn rhan wahanol o'r wlad sy'n golygu bod gormod ohonynt heb ddim neu heb lawer o gymorth teuluol ar gael. Dywedodd Awel Homecare mai anaml iawn y mae dros hanner eu defnyddwyr gwasanaethau hwy'n gweld unrhyw aelodau o'u teulu. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd mudiadau gwirfoddol i helpu gyda gweithgareddau a mynd â phobl allan am y dydd. Cafodd yr ymdeimlad hwn o arwahanrwydd ei grybwyll gan y cartrefi gofal, y cartrefi nyrsio a'r cynlluniau tai gofal ychwanegol hefyd. Fe sonion nhw am her cadw mewn cysylltiad â'r cymunedau y tu allan. Eto mae rôl gwirfoddolwyr yn bwysig iawn.

Mae'r rhai sy'n byw mewn lleoliad gwledig yn llai tebygol o gael budd o fentrau cymdeithasol neu elusennau.

Mae gormod o bobl o hyd nad ydynt yn gwybod ble i fynd i gael help a chynghor.

Cafodd cludiant ei godi fel pryder allweddol gan lawer o sefydliadau, yn enwedig ar gyfer y rhai â phroblemau symudedd. Wrth i bobl fynd yn hŷn gall symudedd fod y maes yr effeithir arno fwyaf ac mae hyn yn cael effaith fawr ar eu bywyd, eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl. Yn syml nid oes digon o gymorth ar gael, sy'n waeth byth mewn cymunedau gwledig. Codwyd pryderon ynghylch pobl sydd wedi cael diagnosis o ddementia yn ddiweddar a oedd yn colli eu hannibyniaeth a'u gallu i grwydro yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd cael mynediad at grwpiau a gweithgareddau.

Mae'r ragdybiaeth nad ydynt yn gallu gwneud pethau'n creu rhwystredigaeth i rai pobl hŷn, yn enwedig y bobl â rhai cyfyngiadau corfforol. Mae galluogi pobl i fod yn annibynnol yn hanfodol i iechyd meddwl da a llesiant cyffredinol. Fodd bynnag, dywedodd un cynllun Tai Gofal Ychwanegol fod rhai tenantiaid yn dod yn rhy

ddibynnod ar y staff a'r gwasanaeth i wneud pethau drostynt ac nad oeddent yn fodlon ceisio byw ar eu pennau eu hunain a gwneud pethau drostynt hwy eu hunain.

Dywedodd rhai sefydliadau eu bod yn profi heriau o ran recriwtio digon o staff i ateb y galw amrywiol. Ceir pryderon go iawn ar hyn o bryd ynghylch y pwysau ar ysbytai i ryddhau cleifion yn ôl i'r gymuned pan fo capasiti annigonol yn y sector gofal cartref i ymdopi â hyn.

Dywedodd un sefydliad nad yw unigolion a dderbynnir i'r ysbyty wastad yn cael eu hailasesu cyn cael eu rhyddhau. Mae angen i hyn ddigwydd er mwyn adnabod unrhyw newidiadau y gall fod angen eu gwneud i'r pecyn gofal cyn iddynt gael eu rhyddhau.

Ceir pryder bod y ffocws o ran staff hyfforddedig yn aml ar anghenion pobl sy'n ddibynnod iawn a bod bwlch yn y cymorth y mae angen iddo gael ei lenwi gan ffrindiau, teulu neu'r trydydd sector lle nad yw'r cymorth hwnnw ar gael.

Mae'r cynnydd yn nifer y bobl â dementia'n bryder allweddol fel y mae'r diffyg gwybodaeth a chymorth i bobl sy'n byw gyda dementia, y diffyg gwybodaeth am ddiagnosis ac am hawl i fudd-daliadau. Dywedodd rhai eu bod yn teimlo bod niferoedd cudd o bobl sy'n byw gyda dementia a gofalwyr nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau. Hefyd, maent yn teimlo bod diffyg gofal preswyl priodol, gofal i'r henoed eiddil eu meddwl a gofal nyrsio i bob grŵp oedran ymhlith dioddefwyr dementia, ond yn enwedig gofal sy'n briodol i'w hoedran ar gyfer pobl dan 65 a gweithgareddau a chymorth i bobl yr effeithir arnynt gan ddementia. Mae cleientiaid yn eu 40au/50au yn cael gofal dydd gyda phobl yn eu 80au sy'n gwbl amhriodol.

Mae cyllid byrdymor i'r trydydd sector yn golygu ei bod yn anodd darparu gwasanaethau cyson ac yn ei gwneud yn anodd i'r trydydd sector gynllunio ar gyfer y dyfodol a rhoi cymorth y mae ei ddifawr angen.

I gartrefi gofal mae rhai o'r heriau allweddol yn cynnwys: Helpu pobl i fod yn rhan o'r gymuned ehangach, cynnwys trigolion yn fwy yn y penderfyniadau, gwella symudedd / ymarfer corff ar gyfer trigolion. Mae gostyngiadau yn nifer y cartrefi gofal/cartrefi preswyl yn bryder, ac felly hefyd recriwtio a throsiant staff gofal. Dywedodd llawer o sefydliadau fod prinder llety addas i bobl hŷn, boed mewn cartrefi gofal, tai gofal ychwanegol, llety cydberchnogaeth neu yn eu cartref eu hunain.

Un thema gyffredin o ran yr hyn sy'n gweithio'n dda yw gweithio'n dda fel tîm ac mewn partneriaeth.

Yr hyn nad yw'n gweithio cystal: diffyg adnoddau/staff yn y rhan fwyaf o achosion, rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau a diffyg darpariaeth gofal dydd.

Yr hyn y mae angen iddo newid: mae angen mwy o ddarpariaeth ar gyfer pobl â dementia cynnar ar Ynys Môn.

Heriau: diffyg cyfathrebu, cludiant cymunedol yn enwedig i bobl ag anghenion cymhleth, tai fforddiadwy a chyfathrebu rhwng gwasanaethau a chleientiaid, rhwystrau ieithyddol, unigrywdd ac arwahanrwydd.

Roedd awgrymiadau ynglŷn â sut i wella hyn yn cynnwys: yr angen i gasglu gwybodaeth am ddarpariaeth leol (grwpiau cymorth a gwasanaethau arbenigol) ac ymuno â gweithgareddau cymunedol. Yr angen i gydnabod, ar gyfer rhai pobl megis pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddol a dementia hwyr; ni fyddant yn gallu cael cymorth gan y teulu, ffrindiau na'r gymuned ehangach. Mae angen cludiant cymunedol mwy effeithiol arnynt.

Iechyd, anableddau corfforol a nam ar y synhwyrâu

Mae cynorthwyo pobl i fyw gydag afiechyd ac anabledd yn eu cartrefi eu hunain yn bwysig iawn. Mae rhai o'r darparwyr gwasanaethau a gomisiynwyd yn ei chael yn her oherwydd y diffyg amser sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer darparu gwasanaethau yn y cartref. Ceir her hefyd o ran sut i gefnogi pobl ar yr adeg y mae arnynt ei eisiau ac mor aml ag y mae arnynt ei eisiau a diffyg cyllid yw'r broblem gan amlaf.

Mae realiti unigrwydd, arwahanrwydd a theimladau o fod yn ddiwerth ac yn agored i niwed, yn enwedig i unigolion sydd wedi cael eu diagnosis yn ddiweddar, yn aml yn cael ei ddwysáu am eu bod yn colli eu swydd, eu hannibyniaeth economaidd, eu symudedd a'u hunan-fri, ac weithiau dros amser am fod perthnasoedd yn dod i ben a'r uned deuluol yn chwalu.

Codwyd y ddarpariaeth o ran gofal byrdymor yn dilyn triniaethau llawfeddygol fel pryder. Soniwyd am broblemau gyda mynediad at help, cyngor a chefnogaeth neu ofal ar adegau argyfyngus gan gynnwys cael gafael ar offer. Mae cynorthwyo pobl i gymryd meddyginiaeth ar ôl llawdriniaeth neu i drin cyflwr cronig yn bwysig iawn. Mae angen goresgyn materion logistaidd sylfaenol. Er enghraifft os nad yw pobl yn gallu gyrru mwyach neu drefnu eu bywydau trwy eu hanabledd. Mae cludiant yn gallu bod yn broblem, yn enwedig os oes anghenion arbennig megis defnyddio cadair olwyn.

Mae rhai sefydliadau'n cael y prosesau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn rhy gymhleth, sy'n creu rhwystrau hyd yn oed pan fo datrysiadau'n syml.

Adran Cleifion Allanol Offthalmoleg BIPBC – Nid yw'n ymddangos bod digon o gyfleoedd gwasanaethau i ateb yr angen ar hyn o bryd mewn rhai meysydd triniaeth a gallant fethu â gweld cleifion yn brydlon. Mae'r rhestrau aros ar gyfer llawdriniaeth cataract yn rhy hir oherwydd diffyg staff. Mynediad at ymyriadau a chymorth amserol sy'n gweithio orau yn aml. Gall oedi cyn cael gofal gael effaith corfforol ac emosiynol negyddol ar fywydau cleifion.

Yn hanesyddol ychydig iawn o gymorth uniongyrchol gan y GIG fu ar gael i bobl â chyflwr niwrolegol hirdymor, ac mae'r ychydig o gymorth sydd ar gael yn crebachu mewn gwirionedd. Mae diffyg cyfeirio priodol gan weithwyr iechyd proffesiynol at gymorth parhaus wedi golygu bod pobl wedi gorfod dod o hyd i'w ffordd eu hunain i ddygyddod â'u cyflwr. I lawer mae hyn yn her.

Canolfan niwrotherapi – Nid yw'r cyllid gan BIPBC yn cynrychioli gwir gost gwasanaethau iechyd i'n haelodau o Gymru. Dim ymgysylltu ystyrlon â BIPBC.

Mae'r gostyngiad yn nifer y cartrefi preswyl/cartrefi gofal arbenigol yn bryder, ac felly hefyd recriwtio a throsiant staff gofal. Dywedodd sawl sefydliad fod diffyg llety addas i bobl hŷn, boed mewn cartrefi gofal, tai gofal ychwanegol, llety cydberchnogaeth neu yn eu cartref eu hunain.

Fe nododd Fair Treatment for the Women of Wales y materion canlynol yr oedd eu haelodau wedi'u hadnabod ac yr oeddent hwy'n gallu rhoi peth cymorth gyda hwy.

- Clinigwyr ddim yn cymryd pobl o ddifrif a phoen gorfforol ddim yn cael ei thrin yn ddigonol neu anhawster cael cymorth arbenigol e.e. mae menywod yn wynebu oedi diagnostig o 8 mlynedd (ar gyfartaledd) ar gyfer endometriosis.
- Diffyg cymorth gyda materion ffrwythlondeb, mae cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yng Ngogledd Cymru yn anodd, gyda'r amseroedd aros yn ormodol. Gall fod yn her dod o hyd i ffynonellau cymorth eraill, ac nid yw llawer o fenywod yn gwybod ble i droi.
- Symptomau ddim yn cael eu cymryd o ddifrif yn yr ysgol neu'r gweithle; mae llawer o ymatebwyr yn teimlo cywilydd os ydynt yn gorfod egluro natur eu problemau
- Diffyg gwybodaeth gyfoes a chymorth gan y gwasanaethau iechyd – mae angen prosesau cyfeirio gwell gan feddygon teulu ac ysbytai, er enghraifft i helpu gyda heriau darfyddiad cynnar mislif
- Mae'n her cynnal perthnasoedd cadarnhaol gyda theulu a ffrindiau pan fo gan rywun afiechyd cronig. Gall hyn arwain at arwahanrwydd cymdeithasol a gall arwain at ball ar agosrwydd gyda phartneriaid.
- Nid yw iechyd meddwl yn cael ei gyfrif yn 'gyfartal' ag iechyd corfforol o ran dealltwriaeth, triniaeth, na darparu gwasanaethau – mae angen mwy o ddarpariaeth.
- Cymorth ymarferol gwell i fynd allan o'r tŷ a byw bywyd 'normal'
- Diffyg arian – byddai dealltwriaeth well am gyflyrau iechyd menywod gan gyflogwyr a'r system fudd-daliadau o gymorth.

Roedd awgrymiadau ar gyfer gwella hyn yn cynnwys:

- Newid mewn ffordd o feddwl ar ran gweithwyr meddygol proffesiynol – gallan ymgysylltu â 'chleifion arbenigol' / grwpiau defnyddwyr i helpu, blaenoriaethu asesiadau llesiant ac ansawdd bywyd pan fo cleifion yn dod i sylw gyda phroblemau.
- Ar gyfer cleifion endometriosis, fel yn Ne Cymru, mae angen am fecanwaith hunanatgyfeirio a all gynorthwyo cleifion i gael mynediad at y nyrs endometriosis ar unwaith, i drafod symptomau, triniaeth a strategaeth.
- Mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am gyflyrau diniwed megis endometriosis a gwerthfawrogiad ohonynt mewn ysgolion / yn y gweithle.
- Pecyn cymorth yn cael ei ddarparu gan y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cael gafael ar wybodaeth a chynghor
- Trefnu bod therapïau amgen ar gael yn haws
- Cyllid / cymeradwyaeth swyddogol i 'eiriolwyr iechyd' i helpu cleifion i fynegi eu symptomau'n fwy eglur, chyfleu'r achos dros driniaeth / atgyfeiriadau priodol

- Gwasanaethau cymdeithasol / iechyd cydgysylltiedig, er enghraifft i gynorthwyo menywod heb rwydweithiau cymdeithasol/teuluol i anfon plant i'r ysgol ar ôl llawdriniaeth
- Sgiliau meithrin hyder i ferched mewn ysgolion, addysg am gyflyrau megis endometriosis, addysgu merched 'nad yw poen yn normal'.
- Denu clinigwyr ag ymrwymiad i arbenigeddau penodol (megis endometriosis) a fyddai'n galluogi meddygon i wella'u canlyniadau a gwella'u henw da proffesiynol
- Gwella gofal dilynol ar ôl llawdriniaeth abdomenol / pelfig / gynaecolegol.
- Mekanwaith syml, hygyrch i grwpiau cymorth yn y trydydd sector / grwpiau cymorth cymunedol anffurfiol allu bwydo'n ôl i'r gwasanaethau iechyd / gofal cymdeithasol i'w helpu i wella'u darpariaeth.

Anableddau dysgu

Mae pobl am gael eu trin yn gydradd â gweddill y boblogaeth. Mae arnynt angen cymorth i deimlo'n rhan o'r gymyned a mynegi eu hunain. Yn arbennig mae sefydliadau'n teimlo nad oes digon o gymorth na chyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu weithio ac nad oes digon o gymorth na chyfleoedd iddynt ddatblygu perthnasoedd newydd.

Ceir problem gyda grwpiau a gweithgareddau ar gyfer plant ag anableddau dysgu yn ystod gwyliau ysgol. I'r rhai mewn ysgolion prif ffrwd, mae'r sefydliadau'n teimlo bod cymorth cymysg gan athrawon a chynorthwywyr addysgu. Mae rhai cynorthwywyr dosbarth ac athrawon yn dda iawn, ond nid oes digon o ymwybyddiaeth gan rai am ddiwallu anghenion plant ag anawsterau dysgu. Mae rhieni'n bryderus ynghylch mynd i mewn i ysgolion i ddweud beth ddylai athrawon a chynorthwywyr addysgu fod yn ei wneud rhag ofn na chaiff y plentyn fynd i'r ysgol mwyach.

Nid yw pob cyngor yn darparu gweithiwr cymdeithasol pontio neu dîm i gydgysylltu a rheoli materion yn ystod camau pontio plant â syndrom Down. Hefyd, pan fo plentyn yn cael gwasanaethau seibiant preswyl, yn y gorffennol mae'r plentyn wedi bod yn cael ei labelu'n Blentyn sy'n Derbyn Gofal sydd wedi atal rhai teuluoedd rhag defnyddio'r gwasanaeth seibiant oherwydd eu canfyddiadau/stigma sy'n gysylltiedig â'r label 'Plant sy'n Derbyn Gofal' a'r adolygiadau ac arolygiadau ffurfiol sy'n gysylltiedig ag ef.

Ceir diffyg darpariaeth therapi lleferydd yn genedlaethol, a lle mae ar gael, ceir dadleuon rhwng awdurdodau iechyd a lleol ynglŷn â phwy sy'n mynd i dalu – ai angen o ran iechyd ynteu o ran addysg ydyw.

Mae rhieni i blant ag anableddau dysgu'n bryderus ynghylch y cyfnod pontio i fywyd fel oedolyn. Mae'n yn pryderu pwy fydd yn gofalu am eu plant ag anableddau dysgu ac a fydd y cymorth yn ddigonol.

Ceir diffyg cymorth lefel isel hirdymor i bobl sydd ag anableddau dysgu ond nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer diagnosis anabledd dysgu ac sy'n annhebygol o allu cynnal tenantiaeth tŷ yn annibynnol byth.

Awtistiaeth

Mae dod o hyd i wasanaethau sydd ar gael i bobl ag awtistiaeth a syndrom Asperger yn anodd iawn.

Iechyd meddwl

Dywed Cruse mai hwy yw'r unig fudiad gwirfoddol cenedlaethol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi cael profedigaeth. Ystyrir bod y broses atgyfeirio, yn enwedig o wasanaethau iechyd, yn wael ac mae diffyg adeiladau y tu allan i'r tymor ysgol i weld plant.

Mae rhai sefydliadau'n teimlo nad oes digon o wasanaethau iechyd meddwl ar gael ar gyfer gorbryder ac iselder lefel isel.

Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau cymorth ar gael dros y ffôn yn unig. Gall hyn fod yn broblem i rai pobl nad ydynt yn defnyddio / nad ydynt yn gallu defnyddio gwasanaethau ffôn. Yn aml nid yw pobl mewn argyfwng iechyd meddwl yn gallu defnyddio ffôn i ffonio rhywun pan ydynt mewn trallod. Dylai dulliau eraill o gysylltu megis e-bost neu negeseua testun gael eu defnyddio'n eang gan sefydliadau. Os yw rhywun sydd mewn trallod yn anfon e-bost at sefydliad dylent gysylltu'n ôl â'r unigolyn trwy'r e-bost. Os oes angen gwneud galwad ffôn, yna dylai'r unigolyn o'r sefydliad y cysylltwyd ag ef ei gwneud yn glir pryd y gall yr unigolyn sydd mewn trallod ddisgwyl galwad fel ei fod yn barod ar ei chyfer yn feddylol.

Os oes gennych glefyd neu afiechyd cronig rydych yn disgwyl cael cymorth ar ei gyfer; fodd bynnag mae eich iechyd emosiynol yn aml yn cael ei esgeuluso. Mae angen i fwy o gydnabyddiaeth a chymorth fod ar gael ar gyfer hyn.

Os oes gennych broblem iechyd meddwl yna mae'n aml yn anodd iawn cael swydd unwaith eto. Mae rhai pobl wedi bod yn gwirfoddoli am amser hir gyda mudiadau amrywiol.

Mae angen mwy o ymarferwyr iechyd meddwl. Byddai'n ddefnyddiol iawn gallu cael y cyfle i ymarferydd ymweld â'r cartref, yn enwedig ar gyfer yr asesiad cychwynnol mewn lleoliad cyfarwydd. Mae'r oedi cyn bod unigolion yn cael asesiadau iechyd meddwl yn achosi problemau gwirioneddol. Mae angen cymorth hyblyg hefyd.

Camddefnyddio sylweddau

Mae gan asiantaethau camddefnyddio cyffuriau a sylweddau brotocol cyfrinachedd newydd sy'n golygu nad ydym yn gallu cael gwybodaeth megis a yw cleient yn cadw apwyntiad. Mae rhai sefydliadau'n ei chael yn anodd asesu risgiau. Byddai protocol rhannu gwybodaeth ledled y sir yn ddefnyddiol.

Mae pobl yn aml yn ei chael yn anodd derbyn bod unigolion sy'n malio – mae hyn yn broblem arbennig pan fo'n ymwneud ag aelodau o'u teulu y maent wedi'u brifo yn y gorffennol.

Ceir prinder mawr o ran llety "symud ymlaen" addas, a hyd yn oed os ydynt yn gallu cynilo ar gyfer llety rhent preifat, mae stigma'n broblem ymhlith rhai ac yn golygu nad

ydynt yn derbyn tenantiaid sydd ar fudd-daliadau. Mae angen mwy o ddealltwriaeth am fudd-daliadau ymhlith landlordiaid.

Byddai'n ddefnyddiol bod â chytundeb ar gyfer rhannu gwybodaeth sensitif rhwng ardaloedd partneriaeth i wella'r gwasanaeth a ddarperir ac i ddiogelu llesiant pobl sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau.

Ceir bwlch mewn gwasanaethau ar gyfer pobl ac arnynt angen cymorth am yn hwy na dwy flynedd ond nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol i gael cymorth, megis pobl y mae arnynt angen ychydig o gymorth o bryd i'w gilydd yn unig ond y mae'n debygol y bydd arnynt angen y cymorth hwnnw trwy gydol eu hoes.

Mae cymorth sy'n gweithio'n dda'n cynnwys: cymorth fel y bo'r angen a roddir o fewn tenantiaethau'r defnyddwyr gwasanaethau eu hunain; Llety â Chymorth i'r rhai sydd heb y sgiliau i reoli tenantiaeth; partneriaethau a rhwydweithio gydag asiantaethau eraill; y system 'canlyniadau'; hyblygrwydd i weld cleientiaid pan fo angen.

Gall fod yn anodd i deulu, ffrindiau a chymunedau lleol roi cymorth gan fod llawer o bobl yn defnyddio'r gwasanaethau am fod y perthnasoedd hynny wedi methu.

Gyrfaoedd

Mae gofalwyr ar ddyletswydd 24/7; gall hyn gael effaith ar eu hiechyd a'u llesiant. Yr her allweddol yw sut i'w cefnogi a darparu gofal seibiant. Mae ar ofalwyr angen gofal seibiant i'w hatal rhag bod yn sâl. Gall y straen o ofalu am berson nad yw'n iach, yn enwedig un y mae arno/arni angen cymorth arbenigol, fod yn niweidiol tu hwnt i iechyd a llesiant cyffredinol y gofalwr. Mae'r cysylltiad rhwng straen cyson a difrifol ac iselder yn dra hysbys. Gall hyn ddatblygu, ac mae'n datblygu yn iselder cronig mewn gofalwyr, gan arwain at ddibyniaeth gynyddol ar ofal sylfaenol ac eilaidd, a'r costau gofalu statudol sy'n deillio o hynny i'r gofalwr a'r sawl sy'n cael gofal.

Gofalwyr sy'n ei chael yn anodd taro'r cydbwysedd rhwng y ddau.

Mae gofalwyr yn aml yn teimlo wedi'u hynysu ac yn gyfyngedig o ran eu gallu i gyflawni eu gweithgareddau eu hunain. Gallant deimlo bod eu rôl fel gofalwr yn disodli eu hawl unigol hwy eu hunain i fywyd annibynnol. Mae hyn yn aml yn achosi teimladau negyddol a dig sy'n gallu datblygu'n rhywbeth sy'n gallu achosi anawsterau yn y berthynas rhwng y gofalwr a'r sawl sy'n cael gofal.

Roedd awgrym y dylai'r holl ofalwyr cofrestredig ac arnynt angen apwyntiad gyda meddyg teulu gael blaenoriaeth ac y dylai fod sicrwydd y byddant yn cael apwyntiad ar y dydd. Fel arall, dylent gael ymweliad â'r cartref. Yn yr un modd, dylai eu hapwyntiadau hwy eu hunain yn yr ysbyty gael eu rhoi ar lwybr carlam. Ceir teimlad ymhlith mudiadau yn y trydydd sector bod angen i feddygon teulu'n gyffredinol fod yn fwy ymwybodol o ofalwyr, eu pwysigrwydd a'u hanghenion.

Mae rhai'n teimlo nad oes digon o gymorth o hyd ar gyfer gofalwyr i helpu gyda gweithgareddau beunyddiol megis siopa a choginio, gwybodaeth wael am faeth, dewisiadau da o ran bwyd a sgiliau coginio.

Mae gofalwyr ifainc yn profi lefelau uchel o straen a gorbryder ac mae hyn yn effeithio ar eu bywydau mewn llawer o ffyrdd: eu cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, eu hiechyd a'u llesant emosiynol, eu perthnasoedd, cyfleoedd i ddatblygu rhwydweithiau cymorth cadarnhaol a chyfleoedd hamdden. Gall fod ar ofalwyr ifainc sy'n gofalu am riant angen cymorth ychwanegol, er enghraifft wrth wneud cais am addysg bellach a chyflogaeth. Mae rhai'n penderfynu dod yn ofalwyr llawn-amser am y sawl y maent yn gofalu amdano neu amdani ac o ganlyniad nid ydynt yn gwreiddu eu huchelgeisiau ac maent yn methu â chyflawni eu potensial llawn ym myd addysg a chyflogaeth sy'n effeithio ar eu cyflogadwyedd hirdymor.

Fe wnaeth un sefydliad ymchwil i'r hyn y mae ar ofalwyr ifainc ei angen i lwyddo'n academaidd ac fe ganfu mai'r hyn sy'n allweddol yw eu bod yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan eu hathrawon. Yn anffodus roeddent yn teimlo bod hwn yn faes a oedd yn gyson yn achos pryder. Gellid annog ysgolion i fod yn fwy rhagweithiol trwy fabwysiadu rhywbeth fel gwobr y seren aur sy'n cael ei rhedeg yn Lloegr.

Weithiau nid yw gofalwyr ifainc sy'n troi'n 18 yn gallu cael y cymorth y mae'i angen arnynt mwyach ac maent yn gorfod symud i asiantaeth arall i gael cymorth. Mae hyn yn golygu eu bod yn colli gwasanaeth. Fe hoffai llawer o ofalwyr ifainc pe bai'r un darparwr yn parhau i'w cefnogi am ei fod yn deall eu hamgylchiadau.

Mae angen i'r sector cyhoeddus gydweithio'n fwy effeithiol i adnabod gofalwyr. Nid oes diben bod â chymaint o wasanaethau os nad yw pobl yn gwybod amdanynt neu os nad ydym ni'n gwybod eu bod yn ofalwyr.

Mae rhai'n teimlo nad oes digon o wasanaethau cwnsela ar gyfer gofalwyr. Mae gofalu'n gallu effeithio'n fawr ar lesiant meddyliol gofalwyr, ond gall fod yn anodd cael gafael ar wasanaethau cwnsela.

Nid oes ystod ddigon mawr o wasanaethau, nid oes digon o wasanaethau ar gael ac nid oes gwasanaethau digon hyblyg i ddarparu egwylion byr ar gyfer gofalwyr. Mae hyn yn broblem arbennig i ofalwyr am bobl â lefelau cymedrol neu uchel o ddementia. Dylai asesiadau ar gyfer gofal iechyd parhaus gynnwys egwylion byrdymor i'r gofalwr.

Nid yw cynghorau lleol yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau eistedd gyda phobl unwaith y mae'r sawl sy'n cael gofal yn symud drosodd i Ofal Iechyd Parhaus, a gall hynny fod yn niweidiol i'r gofalwr os nad yw'r ddarpariaeth honno'n cael ei hystyried fel rhan o'r asesiad ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus.

Mae gofalwyr hyn yn pryderu ynghylch eu dyfodol, am faint o amser y byddant yn gallu gofalu a beth fydd yn digwydd i'w hanwilyd. Mae angen cymorth ar gyfer gwasanaethau glanhau, a gwasanaethau garddio pan fo'r gofalwr yn darparu pob agwedd arall ar ofal.

Weithiau nid yw gofalwyr yn cael eu cynnwys mewn cyfarfodydd cyn bod y sawl sy'n cael gofal yn cael ei ryddhau o'r ysbyty. Maent yn teimlo'u bod yn cael eu trin fel ôl-ystyriaeth. Rhai cwynion cyffredinol ynghylch cyfathrebu gwael am ofalwyr rhwng y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol.

Cymorth i ymdopi â cholled, yn enwedig ar ôl rôl ofalu hir. Hefyd ceir ansicrwydd pan fo'r sawl sy'n cael gofal yn marw a'r gofalwr yn poeni y gallai golli ei gartref hirdymor ar yr un pryd.

Cyllid yw'r prif bryder i lawer o sefydliadau yn y trydydd sector. Maent yn teimlo bod mwy y gallent ei wneud.

Ceir problem gyda mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Er enghraifft danfon presgripsiynau, gwasanaethau seibiant a grwpiau ar gyfer gofalwyr.

Mewn rhai achosion byddai hyfforddiant sylfaenol ar godi a chario a rhoi meddyginiaeth yn ddefnyddiol.

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Yr heriau allweddol i'w goresgyn yw arwahanrwydd, hunan-fri isel, materion iechyd meddwl, euogrwydd/cywilydd, mecanweithiau ymdopi ac anghydraddoldeb rhwng y rhywiau. Materion penodol yw plant yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig, mynediad at dai, cymorth cyfreithiol, pwysau ariannol a thlodi

Mae'n bwysig bod gwasanaethau ar gael ledled Gogledd Cymru a bod sesiynau cwnsela ar gael yn gyflym a bod cymorth ar gael ar gyfer anghenion iechyd meddwl lefel isel. Gall fod yn anodd cael cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer teuluoedd yn y lloches a chymorth gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed oherwydd y rhestr aros – dylai fod mwy o ymyriadau cynnar ar gael.

Am ganlyn arni â mentrau i gynnwys cleientiaid mewn meysydd/gweithgareddau eraill/addysg naill ai yn ystod neu ar ôl y broses gwnsela i barhau â'r cymorth a grymuso pobl i wella'u llesiant.

Mae stigma'n dal i fod yn gysylltiedig â thrafodaeth a chymorth lle mae cam-drin rhywiol yn ystod plentyndod yn y cwestiwn.

Mae budd-daliadau'n cael eu canslo neu eu hatal am fod partner camdriniol yn cyflwyno gwybodaeth anghywir ac mae hyn yn achosi llawer o broblemau. Gall gymryd wythnosau i ailgychwyn hawliad neu gychwyn un newydd.

Soniodd un sefydliad am restr aros. Oherwydd yr hinsawdd sydd ohoni a sylw yn y cyfryngau mae atgyfeiriadau wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'n cymryd llawer o ddewrder i rywun gamu ymlaen a cheisio cymorth ar gyfer y math yma o gam-drin. Mae rhai cleientiaid yn disgwyl am flynyddoedd cyn eu bod yn barod ac fel arfer erbyn iddynt geisio cymorth maent wedi cyrraedd pwynt isel iawn ac mae taer angen cymorth arnynt ar frys. Mae gadael iddynt aros ar yr adeg hon pan ydynt yn agored i niwed yn gallu peri i'w symptomau a'u problemau waethygu.

Un arall yw cael atgyfeiriadau amhriodol, er enghraifft gan yr heddlu ar gyfer problemau gydag alcohol/cyffuriau yn hytrach na cham-drin domestig.

Mae'r gwasanaethau presennol yn gweithio'n dda a cheir perthnasoedd/partneriaethau da gyda sefydliadau eraill. Pryderon ynghylch gostyngiadau yn y cyllid a'r angen i gynnal cymorth ar gyfer gwasanaethau sy'n gweithio'n dda, er enghraifft ffoaduriaid, yn hytrach na chwilio am 'syniadau newydd, ffres' drwy'r amser. Mae angen cymorth ac arweiniad i rieni ac i atal y cylch o drais domestig. Mae angen codi ymwybyddiaeth athrawon fel eu bod hwy'n gwybod sut i gefnogi plant mewn ysgolion. Mae angen i ynadon ddeall effaith lawn gorchmynion cyswllt â phlant mewn achosion o gam-drin domestig. Mae angen mwy o dai brys a sicrwydd cyllid ar gyfer y lloches.

Cyn-filwyr

Fe wnaeth yr arolwg o sefydliadau ganfod y materion canlynol i gyn-filwyr: anghenion tai a chyflogaeth; mynediad gwell at wasanaethau gofal a chymorth yn enwedig gwasanaethau llesiant meddyliol cadarnhaol; mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau i symleiddio'r siwrne i gyn-filwyr; symleiddio llwybrau traws-atgyfeirio. Fe wnaeth hefyd amlygu'r ffaith y dylai staff sy'n gweithio yn y sector statudol gael eu huwchsgilio i weithio gyda chyn-filwyr ac y dylent fod yn fwy rhagweithiol o ran gofyn am statws cyn-filwr. Roedd grwpiau cyn-filwyr a amlygwyd fel rhai y dylid rhoi sylw arbennig iddynt yn cynnwys:

- y rhai hynaf a mwyaf eiddil. Mae ganddynt anghenion cymorth amlwg (corfforol ac emosiynol) i fyw'n annibynnol ac osgoi arwhanrwydd.
- y rhai 16-54 oed â phroblemau iechyd sy'n gysylltiedig â'u gwasanaeth yn y Lluoedd Arfog
- y rhai ifancaf a'r rhai a ryddhawyd yn fwyaf diweddar o'r Lluoedd Arfog. Gall y rhain wynebu problemau o ran pontio i fywyd allan o'r Lluoedd Arfog

Sefydliadau diogel

Y prif bryderon yw tai, mynediad at ofal iechyd a pharhad gofal iechyd ar ôl cyfnod yn y carchar. Mae'r gwasanaeth prawf yn teimlo bod diffyg cynllunio hirdymor ac ymdeimlad o ddatrysiadau munud olaf y mae'n rhaid i staff y gwasanaeth prawf ddod o hyd iddynt. Maent yn gallu ei chael yn anodd cael gwybodaeth o asesiadau gan bartneriaid (yn enwedig cydweithwyr yn y gwasanaethau iechyd), sy'n ei gwneud yn anodd adnabod ac asesu anghenion ac felly gwneud atgyfeiriadau.

Mae angen i wasanaethau ar gyfer pobl anabl mewn sefydliadau diogel wella. Er enghraifft gall y broses o gaffael offer megis cadeiriau olwyn, baglau, seddi/ gwelyau addas ar gyfer preswylwyr anabl oedrannus fod yn anodd neu gymryd amser hir.

Mater arall a amlygwyd yw diffyg tai addas mewn rhai rhanbarthau yng Nghymru sy'n ei gwneud yn anodd dod o hyd i lety sefydlog ar gyfer unigolion sy'n gadael sefydliad diogel a safle cymeradwy.

Digartrefedd

Mae cymorth byrdymor a hirdymor priodol i unigolion sy'n eu cael eu hunain yn ddigartref yn dal i fod yn broblem.

Mae llawer o bobl o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn cysylltu â Bawso i gael cymorth gyda materion tai ond nid yw'r capasiti ganddynt hwy i'w helpu. Y canlyniad i rai ohonynt yw eu bod yn colli eu tenantiaethau tra bo eraill yn mynd i ddyled. Gallai hyn fod wedi cael ei atal pe bai gweithiwr sydd wedi'i neilltuo i weithio gyda Phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ar gael i ymdrin â'u materion. Mae Bawso yn teimlo bod angen gwasanaeth cymorth arbenigol ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Ngogledd Cymru.

Mae prinder llety ag un ystafell wely ledled y rhanbarth. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn wyneb diwygio'r gyfundrefn lles. Ceir pryderon cyffredinol hefyd ynghylch gallu pobl dan 24 oed i fforddio llety yn dilyn y newidiadau o ganlyniad i ddiwygio'r gyfundrefn lles.

Mae llawer o bobl ddigartref yn bobl sydd heb gymorth gan deulu neu ffrindiau gan fod y perthnasoedd wedi methu, a dyna'r rheswm pam eu bod yn ddigartref yn y lle cyntaf.

Arall

Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae teuluoedd yn aml yn methu â fforddio cludiant i'n hysbytai lleol, y gall gymryd dros 30 munud i deithio iddynt mewn car, ac yn amlwg llawer mwy o amser ar gludiant cyhoeddus. Gall diffyg cludiant mewn ardaloedd gwledig achosi i bobl deimlo'u bod wedi'u hynysu.

Mae elusennau cofrestredig yn gorfod ailymgeisio am gyllid yn gyson sy'n ei gwneud yn anodd cynllunio ac yn cymryd llawer o amser.

Ymddengys fod bwlch mewn gwasanaethau ar gyfer pobl y mae arnynt angen cymorth am yn hwy na 2 flynedd ond nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol.

Diffyg cymorth yn y sector Cymdeithasol hefyd gwasanaethau iechyd meddwl i ddioddefwyr clefyd Huntington (Cymdeithas Clefyd Huntington)

Sefydliadau a ymatebodd i'r holiadur

1	Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru/Gofal Crossroads	34	Cyngor Gwynedd – Yr Adran Oedolion, Iechyd a Lles
2	Wow Training	35	Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Sir Ddinbych (Gwasanaethau Gofalwyr)
3	Gofal mewn Galar Cruse Gogledd Cymru	36	Cyngor Gofal Pobl Ifanc Wrecsam
4	Local Solutions	37	Cartref Preswyl Marleyfield House
5	Tender Loving Care Ltd	38	Mencap Cymru
6	Cyngor Sir Ddinbych (ar ran y Gwasanaethau Addysg a Phlant a'r Grant Teuluoedd yn Gyntaf)	39	Cymorth i Fenywod Cymru, Wrecsam
7	Adran Cleifion Allanol Offthalmoleg BIPBC	40	Tîm Datblygu Chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
8	Awel Homecare and Support	41	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
9	Stepping Stones	42	CSFf – Y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuectid
10	Canolfan Lôn Abaty	43	Cymdeithas Clefyd Alzheimer Gogledd Cymru
11	Bawso Ltd	44	Cynllun Activ8-2-16
12	Backcare – Aelod Proffesiynol (Ceiropractydd)	45	FDF
13	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol: Safle Cymeradwy Plas y Wern	46	Y Groes Goch Brydeinig
14	Tai Gogledd Cymru	47	Prosiect Dechrau'n Deg Ynys Môn
15	Ymateb unigol (meddyg teulu)	48	Cyngor Sir y Fflint – Cynllun Gofal Ychwanegol Llys Jasmine
16	Tros Gynnal Plant	49	Uned Diogelwch Cam-drin Domestig
17	BIPBC: Podiatreg ac Orthoteg	50	NEWCIS
18	BIPBC: Dieteteg	51	Unllais
19	Gyda'n Gilydd (Tîm o Amgylch y Teulu Gwynedd)	52	GIG Cymru i Gyn-filwyr
20	BIPBC: Ffisiotherapi	53	Ymateb unigol (gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol)
21	Llys Eleanor	54	Stepping Stones Gogledd Cymru
22	KeyRing	55	Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr
23	Family Friends for 5's to 11's	56	Corwelion Newydd - Perchennog Molly Wright. Yn Masnachu fel AWT
24	Haulfryn Care Ltd	57	Cyngor Sir y Fflint
25	Y Ganolfan Niwrotherapi (NTC)	58	Barnardo's – Gofalwyr Ifainc Sir y Fflint
26	RainbowBiz Limited	59	Gweithredu dros Blant (Sir y Fflint)
27	Gweithredu dros Blant, Prosiectau Gofalwyr Ifainc Gwynedd ac Ynys Môn	60	Cyngor Sir y Fflint – Y Blynnyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd
28	Gwasanaeth Cymorth Cymunedol	61	Llys Gwenffrwd
29	The Rowan Organisation	62	Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
30	Yr Adran Tai, CBSW	63	Gwasanaeth Gofalwyr Wrecsam
31	Ansa Care Concept Plas Dyffryn	64	Cyngor Sir y Fflint – Strategaeth Pobl Hŷn
32	Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST)	65	Cyngor Sir y Fflint – Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
33	Cyngor Sir y Fflint	66	Age Connects Gogledd Ddwyrain Cymru

67	Sense Cymru	101	Fair Treatment for the Women of Wales
68	Y Gymdeithas Strôc	102	Golygfa Gwydyr
69	Y Groes Goch Brydeinig	103	Relate Cymru
70	Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint	104	Touchstones12
71	GISDA	105	RAF Fali
72	Cymdeithas Syndrom Down	106	Prosiect Teuluoedd Gyda'i Gilydd
73	Gofalwyr Powys a Gofalwyr Ifainc Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych	107	Cymdeithas Clefyd Huntington
74	Home-Start Conwy	108	Canolfan DYNAMIC i blant a phobl ifanc ag anableddau
